# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5, Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 12 Hydref 2023

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCCGG@senedd.cymru

## Rhag-gyfarfod (Preifat)

(09.00-09.15)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

(09.15)

## 2 Papurau i'w nodi

(09.15-09.30)

**2.1 Llythyr gan Tracey Burke, Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, ynghylch Maes Awyr Caerdydd**

(Tudalennau 1 - 5)

**2.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**

(Tudalennau 6 - 7)

**2.3 Llythyr gan Andrew Slade, Cyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad, ynghylch Fferm Gilestone (Saesneg yn unig)**

(Tudalennau 8 - 13)

**2.4 Llythyr gan Brif Weithredwr a Chlerc Comisiwn y Senedd**

(Tudalennau 14 - 44)

## Egwyl

(09.30-09.35)

## 3 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Senedd 2022-23

(09.35-10.35) (Tudalennau 45 - 81)

Manon Antoniazzi

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Prif Weithredwr a Chlerc Comisiwn y Senedd

Ken Skates AS
Comisiynydd, Comisiwn y Senedd

Kate Innes
Prif Swyddog Cyllid, Comisiwn y Senedd

**Papur ategol:**
Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil
Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod heddiw

(10.35)

## Egwyl

(10.35-10.40)

## 5 Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law - Comisiwn y Senedd

(10.40-11.00)

## 6 Papur briffio gan y Gwasanaeth Cyfreithiol ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Gweithgarwch Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor)

(11.00-11.30) (Tudalennau 82 - 106)

**Papur ategol:**
Papur briffio gan y Gwasanaeth Cyfreithiol (Saesneg yn unig)

Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Gweithgarwch Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor)

**7 Sesiynau briffio gan Archwilio Cymru ar yr adroddiadau ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, yr adroddiad ar gynllun gweithlu'r GIG ac offeryn data cyllidol y GIG.**

(11.30-12.00) (Tudalennau 107 - 111)

**Papurau ategol:**

Papur briffio gan Archwilio Cymru

Papur briffio ar ddata gweithlu’r GIG, mis Medi 2023 (Saesneg yn unig)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg - Gwaith Dilynol ar yr Adolygiad ar y Cyd o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd, mis Awst 2023

Adroddiad briffio ar ddata ynghylch Gweithlu’r GIG- Medi 2023

**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol / Director General

Y Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Climate Change and Rural Affairs Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

15 Medi 2023

Annwyl Gadeirydd

**MAES AWYR CAERDYDD**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Awst 2023 ynglŷn â Maes Awyr Caerdydd. Rwy'n falch o fedru rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf a gwybodaeth ychwanegol i'r Pwyllgor, yn unol â'ch cais.

**Y Cynllun Achub ac Ailstrwythuro a'r targedau cysylltiedig**

Er mwyn diwygio neu amrywio'r targedau yn y Cynllun Achub ac Ailstrwythuro, rhaid gwneud hynny'n ysgrifenedig drwy ddiwygio telerau ac amodau'r cytundeb y cytunwyd arno mewn perthynas â'r cymorth grant achub ac ailstrwythuro, a rhaid i Lywodraeth Cymru a Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Limited (CIAL) lofnodi yn unol â hynny. Mae'r mater hwn yn un y caiff y ddau barti ei godi ar unrhyw adeg, ond mae cyfnodau adrodd chwarterol, misol a phythefnosol rheolaidd lle gellir ei godi. Ar hyn o bryd, hyd yma, nid yw'r ddwy ochr wedi cytuno ar unrhyw ddiwygiadau, mesurau na thargedau newydd mewn perthynas â'r targedau newid hinsawdd. Byddaf yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor yn fy niweddariadau rheolaidd os diwygir unrhyw darged.

Gallaf gadarnhau y byddwn yn gliriach am y targedau perfformiad ac yn darparu rhagor o wybodaeth gefndir yn y dyfodol. Bydd hynny'n cael ei adlewyrchu yn ein diweddariad chwe misol nesaf i'r Pwyllgor, sydd i'w gyhoeddi'n fuan.

**Adolygiadau**



Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn/Tel: 0300 025 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@gov.wales

Fel y nodwyd yn ystod ein sesiwn gyda'r pwyllgor, yn hytrach na bod yn asesiad ffurfiol yn ystyr y gair ‘adolygiad’, roedd hwn yn fwy o fater o fonitro'r safle'n agos. Fel y dywedwyd wrth y Pwyllgor yn y gorffennol, er gwaethaf y ffaith bod Wizz Air wedi tynnu’n ôl, roedd perfformiad y maes awyr o ran niferoedd y teithwyr yn well na’r niferoedd a ragwelwyd, a chofnododd fod 910k o deithwyr wedi mynd drwy dderbynfa’r maes awyr erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf (31 Mawrth 2023) yn hytrach na’r 820k o deithwyr a ragwelwyd. Ni fu unrhyw effaith uniongyrchol ar adfer y maes awyr a'i sefyllfa ariannol. Mae penderfyniadau a wnaed gan gwmnïau hedfan eraill y maes awyr i ychwanegu capasiti ac i gynnig gwasanaethau’n fwy aml eleni, wedi lliniaru i raddau helaeth yr effaith a gafwyd oherwydd bod Wizz Aur wedi tynnu’n ôl. Rhagwelir y bydd nifer y teithwyr yn parhau fwy neu lai yr un peth yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf ac na fydd fawr o dwf. Mae'r maes awyr yn dal ar y trywydd iawn i gyrraedd 1.3 miliwn o deithwyr erbyn mis Mawrth 2026. Mae gwerthiant at y dyfodol yn edrych yn bositif ar ôl i TUI fynd ati’n ddiweddar i ychwanegu 40,000 o wyliau ychwanegol o Faes Awyr Caerdydd ar gyfer 2024. Byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa'n agos iawn gyda’r swyddogion gweithredol, a thrwy wneud hynny, byddwn yn cael gwybod cyn gynted â phosibl am unrhyw bryderon am berfformiad.

Rydym wrthi'n paratoi cyngor ffurfiol i’r Gweinidogion am y pwysau ychwanegol o ran costau sy’n gysylltiedig â’r ffaith bod gofyn i Faes Awyr Caerdydd osod sganwyr 3-D y Genhedlaeth Nesaf i wirio diogelwch bagiau erbyn 2024, fel sy'n ofynnol o dan reoliadau Llywodraeth y DU. Byddwn yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor unwaith y bydd Gweinidogion wedi cael y cyngor ac wedi gwneud unrhyw benderfyniadau, fel rhan o’n diweddariad nesaf sydd wedi’i drefnu.

**Cadeirydd WGC Holdco**

Gallaf gadarnhau ein bod yn y camau olaf o benodi Uwch Was Sifil newydd Llywodraeth Cymru i Fwrdd Holdco. Mae ymgeisydd wedi cael ei ddewis ac rwy'n disgwyl i'r mater gael ei gwblhau yn ystod yr wythnosau nesaf; byddaf yn darparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor yn ein diweddariad nesaf sydd i’w drefnu’n fuan. Ochr yn ochr â hynny, cynhaliwyd cyfweliadau ar gyfer Cyfarwyddwyr Anweithredol annibynnol newydd Holdco a bydd cyngor Gweinidogol ar benodiadau yn cael ei baratoi yn fuan.

**Cyfalaf Gweithio WGC Holdco**

Ffôn • Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan • website: HYPERLINK "http://www.wales.gov.u
www.wales.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Llywodraeth Cymru, ar ran Gweinidogion Cymru, yn gweithredu Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyf fel cwmni cyfyngedig preifat hyd braich, gyda gwahaniad penodol yn cael ei gyflawni trwy WGC Holdco Limited (Holdco). Ymgorfforwyd Holdco fel cwmni preifat cyfyngedig trwy gyfranddaliadau ar 21 Mawrth 2013. Gan mai Holdco yw ei endid cyfreithiol unigol ei hun, mae'n ofynnol iddo dalu'n uniongyrchol am ei ofynion cyfrifyddu ac archwilio ariannol unigol ei hun er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol y cwmni ei hun. Ni all Llywodraeth Cymru wneud hyn ar ran Holdco nac yn ei le.

Er mwyn galluogi Holdco i gyflawni'r rhwymedigaethau hyn, cytunir ar gyllid yn flynyddol gan Weinidogion, gan arwain at drosglwyddo arian o Lywodraeth Cymru i gyfrif banc Holdco. Amcangyfrifir bod lefel y cyllid y gofynnir amdano yn weithgaredd ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, sy'n seiliedig ar wariant blwyddyn ariannol blaenorol Holdco sy'n cael ei fynegeio i ganiatáu ar gyfer chwyddiant a chynnydd arferol mewn costau.

Yn ogystal â'i rwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol, rhaid i Holdco hefyd dalu am gost ei gydnabyddiaeth Cyfarwyddwr Anweithredol (NED). Oherwydd bod Holdco yn gwmni daliannol 'rhithwir', nid oes ganddo unrhyw staff nac adrannau fel AD neu gyflogres ac, o ganlyniad, telir ffioedd NED drwy Lywodraeth Cymru a'u hawlio'n ôl, yn llawn, o Holdco. Ar ben hynny, ym mis Ebrill, cytunodd Gweinidogion i drosglwyddo £63,000 i gyfrif banc Holdco ar gyfer adennill tâl NED ar gyfer y flwyddyn ariannol hon a blynyddoedd blaenorol, nad oedd Llywodraeth Cymru wedi hawlio'n ôl ar adeg y cais.

Nid oes unrhyw beth newydd ynghylch trosglwyddo arian i gyfrif banc Holdco ac mae'r ceisiadau hyn yn cael eu hadolygu'n flynyddol pan fo angen a bod yr holl benderfyniadau'n cael eu cymeradwyo gan Weinidogion. Mae'r Tîm Polisi Hedfan yn darparu'r swyddogaeth cefnogi ysgrifenyddiaeth ar gyfer Holdco ac yn prosesu anfonebau a ffioedd NED Holdco ar ei ran. Mae swyddogion polisi yn cael cliriad gan Fwrdd Holdco cyn prosesu unrhyw anfonebau neu hawliadau.

**Gwasanaeth Awyr o fewn Cymru  (IACC)**

Yn dilyn tynnu cyllid ar gyfer gwasanaeth awyr PSO Caerdydd-Môn yn ôl ym mis Mehefin 2022, penderfynodd Cyngor Sir Ynys Môn (IACC) nad oedd ganddo adnoddau i ariannu Maes Awyr Môn ei hun ac mai cau oedd yr unig opsiwn. Darparodd gweinidogion ymrwymiad i Arweinydd y Cyngor yng Nghyngor Môn y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu'r holl gostau sy'n gysylltiedig â chau Maes Awyr Môn, gan gynnwys yr holl gostau a'r gwaith y bydd y Cyngor yn eu hwynebu o ddod â'r cytundeb gyda'r Sefydliad

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan ● website: HYPERLINK "http://www.wales.gov.u
www.wales.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Seilwaith Amddiffyn (DIO) i ben.

Ers hynny, mae swyddogion wedi bod yn gweithio'n agos gyda IACC i nodi'r costau a'r prosesau perthnasol dan sylw.

Nodwyd dwy brif ffrwd waith ac maent bellach wedi'u cwblhau:

a. Gwaredu asedau sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru ym Maes Awyr Môn; a

b. Gadael y brydles ynghyd â 'rhoi yn ôl' yr adeilad i'r DIO.

Dyfarnwyd y cytundeb grant ychwanegol a gyhoeddwyd i IACC ym mis Mawrth 2023 i ganiatáu ad-dalu'r costau cau terfynol hyn a 'chefn llaw'. Roedd gwerth y grant ychwanegol ar gyfer uchafswm o £66k. Mae disgwyl i gyfanswm y gwariant fod tua £61k sydd i fod i gael ei gwblhau yn ystod yr wythnosau nesaf.

Rwy'n falch o gadarnhau bod pob offer maes awyr sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru wedi cael ei werthu o dan broses ymgeisio gystadleuol ynghyd â dodrefn swyddfa dros ben. Ni fwriwyd unrhyw eitemau i ffwrdd a chynhyrchodd y gwerthiant incwm o tua £40k i Lywodraeth Cymru.

Mae'r tabl isod yn dangos yr arbedion cost a gyflawnwyd yn erbyn contract Eastern Airways a Grant IACC o ganlyniad i dynnu cyllid a therfynu gwasanaeth yn ôl ym mis Mehefin 2022:

| **Eastern Airways:** | | |
|---|---|---|
| Ar y sail bod y gwasanaeth wedo parhau i gael ei atal dros dro ym mis Ebrill a mis Mai, ailddechreuodd ym mis Mehefin 2022 ac yna gweithredodd fel arfer nes i'r contract ddod i ben ar 17 Chwefror 2023, yr uchafswm gwerth contract disgwyliedig oedd:<br><br>(£169k ym mis Ebrill 2022 – Mai 2022, wedi dod i ben +<br><br>£1,313 ym mis Mehefin 2022 – Chwefror 2023, gweithredol) | Y gwariant ar gyfer y cyfnod:<br><br>(1 Ebrill 2022 – 17 Chwefror 2023) | **Arbedion:** |
| £1.482 miliwn | £478k | **£1 filiwn** |
| **IACC:** | | |
| Ar y sail y byddai'r gwasanaeth hwnnw yn parhau i fod wedi'i atal ym mis Ebrill a mis Mai, gwnaeth ailddechrau ym mis Mehefin 2022 ac wedi gweithredu fel arfer nes i'r grant ddod i ben ar 31 Mawrth 2023, roedd disgwyl i werth y contract fod yn uchafswm o: | Y gwariant ar gyfer y cyfnod: | **Arbedion:** |

Ffôn • Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan • website: HYPERLINK "http://www.wales.gov.u
www.wales.gov.uk

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

| | | |
|---|---|---|
| (£800k ym mlwyddyn ariannol 2022/23 + £66k ym mlwyddyn ariannol 2023/24) | (£187k ym Mlwyddyn Ariannol 202/23 + £61k ym Mlwyddyn Ariannol 2023/24) | |
| £866k | £249k | **£617k** |
| **Cyfanswm cyfun:** | | |
| **£2.348 miliwn** | **£727k** | **£1.617 miliwn** |

Gobeithio y bydd cynnwys y llythyr hwn yn ateb y problemau a godwyd gennych yn eich llythyr ar 3ydd Awst. Byddaf yn rhoi diweddariad arall ichi yn fy niweddariad 6 misol sydd i'w gyhoeddi'n fuan, ond os hoffech gael rhagor o wybodaeth neu eglurhad, mae croeso ichi roi gwybod i mi.

Yn gywir,

**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Y Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan ● website: HYPERLINK "http://www.wales.gov.u
www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Senedd Cymru
Y Pwyllgor Cyllid
—
Welsh Parliament
Finance Committee

Rebecca Evans AS,

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

22 Medi 2023

Annwyl Rebecca,

**Papurau tystiolaeth i gefnogi Cyllideb Ddrafft 2024-25**

Diolch yn fawr am eich llythyr ar 8 Medi.

Rwy'n ddiolchgar am y modd adeiladol yr ydych wedi ymgysylltu â'r Pwyllgor Cyllid ynghylch ffyrdd y gellir gwella tystiolaeth ysgrifenedig weinidogol ar gynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru, gyda'r nod o fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn fy llythyr ar 23 Mehefin.

Rwy'n croesawu eich bwriad i gadarnhau pryd y bydd Gweinidogion yn darparu eu papurau tystiolaeth i bwyllgorau'r Senedd cyn cylch cyllideb 2024-25. Rwyf hefyd yn ddiolchgar y bydd Pwyllgorau'r Senedd yn cael cynnig briff technegol ar y Gyllideb Ddrafft.

O ran eich cais am arwydd clir gan y Pwyllgor Cyllid ynghylch yr hyn fyddai'n cael ei ystyried yn hanfodol i'w gynnwys mewn papurau tystiolaeth weinidogol, ni fyddai'n briodol i mi ddarparu un rhestr o gynigion heb ymgynghori â Chadeiryddion y Pwyllgorau yn gyntaf.

Er fy mod yn gweld manteision o ran datblygu templed lefel uchel ar gyfer papurau tystiolaeth, ac er fy mod yn cefnogi cydweithredu rhwng pwyllgorau i osgoi dyblygu a gorgyffwrdd mewn meysydd ffocws yn ystod craffu ar y gyllideb,

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

gall fod yn anodd cyflawni dull cyson yn ymarferol, o gofio ei bod yn naturiol y bydd gan bwyllgorau flaenoriaethau a meysydd ffocws gwahanol.

Hoffwn hefyd warchod rhag datblygu templed a allai feithrin dull rhagnodol o ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig, a allai wanhau'r wybodaeth sydd ar gael i bwyllgorau unigol yn y pen draw wrth iddynt geisio dwyn penderfyniadau gwariant gweinidogol i gyfrif.

Mae'r anawsterau y mae Gweinidogion yn eu hwynebu wrth ddarparu manylion penodol ar gyfer pwyllgorau sy'n ymwneud â phob MEG yn ystod cyllideb 2024-25 yn enghraifft o hyn. Er fy mod yn cydnabod yr heriau a ddaw yn sgil amserlen cyllideb eleni, ni ddylai hyn rwystro Pwyllgorau rhag gofyn am wybodaeth fanwl yn ymwneud â phortffolios unigol gan fod hyn yn hanfodol i lywio sesiynau tystiolaeth cyhoeddus gyda Gweinidogion, yn enwedig pan fo'r amser i ymgynghori â rhanddeiliaid wedi'i gyfyngu.

Felly, rwy'n barod i archwilio ffyrdd y gellid datblygu templed, er fy mod hefyd yn cydnabod y gallai gymryd amser i sicrhau consensws ar y mater hwn a'i bod yn annhebygol y cytunir ar unrhyw newidiadau ar gyfer cylch y gyllideb sydd i ddod.

Rwy'n anfon copi o'r ymateb hwn i holl bwyllgorau'r Senedd sydd â diddordeb mewn craffu ar y gyllideb er mwyn hwyluso trafodaethau pellach, a byddaf yn codi'r mater hwn yng nghyfarfod nesaf Fforwm y Cadeiryddion ar 23 Hydref.

Yn gywir

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad**
**Economy, Treasury and Constitution Group**

**Cyfarwyddwr Cyffredinol - Director General**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Mark Isherwood AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Y Senedd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

25 Medi 2023

Annwyl Gadeirydd

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Gorffennaf yn gofyn am wybodaeth ychwanegol yn dilyn fy mhresenoldeb yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar 5 Gorffennaf ynghylch Fferm Gilestone. Isod fe welwch fy ymatebion i gwestiynau'r Pwyllgor.

**1. Gweinyddu'r broses gaffael**

*A yw Llywodraeth Cymru yn derbyn y gallai ei Chyngor Gweinidogol fod wedi bod yn gliriach o ran nodi'r rhesymeg sylfaenol dros y pryniant, graddau unrhyw gysylltiad â Gŵyl y Dyn Gwyrdd, yr hyn a ystyrid yn newydd/dadleuol, trefniadau cwmni arfaethedig y Dyn Gwyrdd ar gyfer y fenter newydd, a chyfyngiadau posibl ar addasrwydd y safle?*

Mae swyddogion yn derbyn y gallai'r geiriad fod wedi bod yn gliriach mewn mannau o'r cyngor ysgrifenedig, yn enwedig o ran y berthynas rhwng ehangu brand y Dyn Gwyrdd, y busnes cysylltiedig â'r brif ŵyl. Fodd bynnag, roedd y Cyngor Gweinidogol yn darparu chwe opsiwn i Weinidogion eu hystyried, gan gynnwys yr opsiwn o beidio â symud ymlaen gyda'r cynnig polisi. Roedd y Cyngor Gweinidogol yn ddigon cynhwysfawr ac yn cefnogi'r penderfyniad gweinidogol a geisiwyd.

*A yw Llywodraeth Cymru yn derbyn y gallai'r Cyngor Gweinidogol fod wedi ystyried opsiynau ar gyfer ariannu'r pryniant mewn ffordd wahanol na fyddai wedi bod angen ei chwblhau erbyn 31 Mawrth 2023?*

Rhaid i unrhyw wariant "diwedd blwyddyn" ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r rheoliadau, yn sicrhau gwerth am arian a'i fod yn cyd-fynd â pholisi a'r gallu i'w gyflawni,

Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn/Tel: 0300 025 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@gov.wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

yn yr un modd ag unrhyw drafodiad arall o fewn y flwyddyn ariannol. O ystyried diffyg hyblygrwydd diwedd blwyddyn, mae'n hanfodol bod gan Lywodraeth Cymru brosiectau y gallwn naill ai eu dwyn ymlaen, eu cwblhau ar fyr rybudd, neu eu harafu i'n galluogi i gyflawni'r alldro sydd ei angen arnom o ystyried y gall llawer o'r ffactorau y mae'n rhaid i ni ddelio â nhw fod y tu hwnt i'n rheolaeth. Mae sicrwydd ynghylch argaeledd cyllideb yn amlwg yn greiddiol i unrhyw benderfyniad a wneir.

Roedd y Cyngor Gweinidogol dan sylw yn ymdrin â'r opsiynau hyfyw ar gyfer mynd i'r afael â phrosiect y Dyn Gwyrdd, gan gynnwys opsiwn i beidio â bwrw ymlaen.

*Yng nghyd-destun Cynllun Dirprwyo Llywodraeth Cymru, pa newidiadau yr ydych wedi'u gwneud i sicrhau eich bod yn cael gweld yr achosion lle mae Cyngor Gweinidogol yn ymwneud â materion a ystyrir yn newydd neu'n ddadleuol?*

Roedd yr adroddiad gan Archwilio Cymru ar gaffael Fferm Gilestone yn glir bod y pryniant yn weithdrefnol gadarn a bod yr holl arbenigwyr perthnasol o Lywodraeth Cymru wedi cael eu cynnwys. Nid yw'r Cynllun Dirprwyo yn rhywbeth y gallaf ei newid yn unochrog gan ei fod yn berthnasol ar draws Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rwyf wedi trafod gyda fy uwch-dîm rheoli yn ein cyfarfodydd rheoli misol yr angen i sicrhau bod materion newydd neu ddadleuol yn cael eu codi'n briodol gyda mi pan fydd yr angen yn codi.

*Sut ydych chi wedi bod yn gysylltiedig â phenderfyniadau allweddol eraill a gweithgarwch diwydrwydd dyladwy parhaus sy'n arwain at ddatganiad diweddar y Gweinidog?*

Mae cynnydd y prosiect yn parhau i gael ei reoli o fewn dirprwyaeth y Cyfarwyddwr arweiniol, ac rwy'n cael fy hysbysu'n rheolaidd am ddatblygiadau ac ymgynghorir â mi lle bo angen a phan fo'n briodol. O ystyried y diddordeb sylweddol yn y prosiect, a natur gynyddol amlweddog y gwaith, rydym wedi ychwanegu at y mecanweithiau sicrwydd o amgylch y gwaith, gan gynnwys defnyddio'r model tîm her a drafodwyd yn flaenorol (mewn cyd-destunau eraill) gyda'r Pwyllgor.

*A fyddai mwy o dryloywder o'r dechrau'n deg wedi osgoi llwyth gwaith sylweddol o fusnes llywodraeth yn ymwneud â'r Fferm?*

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd tryloywder ond mae angen i wybodaeth a gyhoeddir fod yn gywir a chael ei rannu mewn modd adeiladol, yn seiliedig ar gynigion drafft terfynol ac nid ar drafodaethau cynnar.

Er mwyn sicrhau bod partïon â diddordeb yn derbyn gwybodaeth ffeithiol gywir, rydym wedi lansio tudalen Cwestiynau Cyffredin ar wefan Llywodraeth Cymru yn ddiweddar ac mae cynrychiolwyr y Dyn Gwyrdd hefyd wedi lansio gwefan i rannu eu gweledigaeth a'u cynlluniau ar gyfer y safle.

*Pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi unrhyw adroddiadau ar benderfyniad yn ymwneud â'r Fferm ers mis Mai 2022, er bod datganiadau Gweinidogol ehangach wedi'u cyhoeddi?*

O ran y broses, rydym yn derbyn y gallai'r Adroddiad ar Benderfyniad sy'n gysylltiedig â'r Cyngor Gweinidogol a gyflwynwyd ym mis Mai 2023 fod wedi'i gyhoeddi ynghynt. Fodd bynnag, yn ymarferol cyhoeddwyd yr wybodaeth ar ffurf llawer mwy sylweddol drwy Ddatganiad Ysgrifenedig gan Weinidog yr Economi i'r Senedd ar 17 Mai 2023, ochr yn ochr â'r adran Cwestiynau Cyffredin ar wefan Llywodraeth Cymru. Ni cheisiwyd unrhyw benderfyniadau Gweinidogol, ac nid oedd eu hangen rhwng prynu Fferm

Gilestone yn wreiddiol a'r penderfyniad 'porth' ym mis Mai eleni ar symud i gam nesaf diwydrwydd dyladwy a chychwyn trafodaethau gyda'r Dyn Gwyrdd ynghylch trefniadau les posibl.

*Sut ydych chi'n ymateb i'r sylwadau yn llythyr yr Archwilydd Cyffredinol ar 19 Ionawr 2023, a oedd yn trafod anghysondebau ymddangosiadol yn y dull o ryddhau gwybodaeth, mewn ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth?*

Mae ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn cael eu hystyried fesul achos, gyda gwybodaeth briodol yn cael ei rhyddhau gan adlewyrchu ciplun mewn amser. Mae Adran 43(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn eithrio gwybodaeth pe byddai, o gael ei datgelu, yn niweidio buddiannau masnachol unrhyw berson cyfreithiol (unigolyn, cwmni, yr awdurdod cyhoeddus ei hun neu unrhyw endid cyfreithiol arall) neu'n debygol o wneud hynny.

Nid yw rhywbeth sydd wedi'i ddynodi'n "fasnachol sensitif" ar un pwynt mewn amser o reidrwydd yn golygu y bydd yn "fasnachol sensitif" am byth. Felly, bydd achosion bob amser pan fydd eithriad yn cael ei gymhwyso ar bwynt penodol mewn amser a lle bydd yr wybodaeth honno'n cael ei rhyddhau'n ddiweddarach gan nad yw'r wybodaeth bellach yn fasnachol sensitif.

Mae cwynion ynghylch ymatebion Rhyddid Gwybodaeth yn amlwg yn faterion i'r ICO ac rydym bob amser yn gweithio gyda swyddfa'r ICO pan fo gwersi i'w dysgu. Hyd yn hyn, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw gwynion sydd wedi'u codi gyda'r ICO mewn perthynas â'r mater hwn.

*A ydych yn cytuno y byddai wedi bod yn briodol cadw cofnodion o drafodaethau cyfarfodydd rhithwir gyda'r Dyn Gwyrdd, i ategu'r trywydd archwilio (yn enwedig pan oedd y posibilrwydd o brynu'r Fferm yn cael ei drafod)?*

Canfu Archwilio Cymru y byddai trywydd archwilio Llywodraeth Cymru yn yr achos hwn wedi bod yn well pe bai'r holl gyfarfodydd wedi'u cofnodi. Rydym bob amser yn ceisio dysgu gwersi o brosiectau a rhaglenni ac yn derbyn y canfyddiad hwn, ond nid yw'n effeithio ar gasgliad sylfaenol Archwilio Cymru bod uniondeb gweithdrefnol y penderfyniad a wnaed ar Fferm Gilestone yn gadarn.

*A yw eich grŵp, neu Lywodraeth Cymru yn ehangach, wedi cymryd unrhyw gamau i egluro disgwyliadau ynghylch cynnal cofnodion o gyfarfodydd rhithwir?*

Cyhoeddwyd bwletin mewnol ar y mater hwn yn ddiweddar yn atgoffa swyddogion o'u cyfrifoldebau o ran rheoli cofnodion, ac mae'r canllawiau ar gyfer swyddogion hefyd wedi'u diweddaru.

## 2. ***Costau sy'n gysylltiedig â rheoli'r Fferm yn barhaus a'i phrisiad cyfredol***

*Faint mae Llywodraeth Cymru wedi'i wario mewn perthynas â rheoli'r Fferm yn barhaus o'i gymharu â'r £57,000 a ragwelwyd adeg llythyr yr Archwilydd Cyffredinol ac a oes unrhyw amcangyfrifon wedi'u diweddaru ynghylch costau yn y dyfodol?*

Byddwn yn sicrhau bod y safle yn cael ei rheoli'n briodol i gynnal gwerth yr ased i drethdalwyr Cymru a'n bod yn diwallu'r cyfrifoldebau perchnogaeth eiddo. Bydd hyn yn naturiol yn arwain at gostau penodol, yn yr un modd ag unrhyw eiddo y mae Llywodraeth Cymru yn berchen arno.

Cyfanswm costau rheoli Fferm Gilestone hyd at 31 Awst 2023 yw £46,629.04.

*Sut mae incwm Llywodraeth Cymru o'r les bresennol yn cymharu â'r costau y mae wedi'u hysgwyddo yn ystod ac ers y pryniant, a swm unrhyw elw sydd wedi'i rannu hyd yma (neu sydd i'w ddisgwyl)?*

Mae'n anodd canfod yr effaith ddisgwyliedig ar gyllid cyhoeddus tan ddiwedd y denantiaeth busnes fferm bresennol. Er enghraifft, mae trefniant rhannu elw ar ochr hamdden a thwristiaeth y busnes na ellir ei benderfynu ar hyn o bryd o ystyried y ceir rhan fwyaf o'r incwm yn ystod misoedd yr haf.

Mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu er y gall fod amrywiad bach y naill ffordd neu'r llall, ar hyn o bryd, yn nhermau rheoli eiddo, mae'r eiddo yn "gymharol niwtral" o ran dadansoddiad cost yn erbyn incwm.

*Beth mae canlyniadau'r arolwg asbestos diweddar wedi'i ddatgelu ynghylch gwaith adfer posibl a'i gost gysylltiedig?*

Datgelodd yr arolwg asbestos fod asbestos yn bresennol yn rhai o adeiladau'r fferm fel y byddech yn ei ddisgwyl mewn adeiladau o'r oedran a'r math hwnnw. Yn bwysig, nid tynnu'r asbestos oedd y cyngor ond ei labelu'n glir – ac mae'r gwaith hwnnw wedi'i gwblhau.

Cost yr arolwg a'r costau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r argymhellion oedd £1,478.26. Rydym yn rhag-weld rhai costau bach pellach gan nad oedd ychydig o adeiladau'r fferm yn hygyrch pan gynhaliwyd yr arolwg cyntaf.

*A yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw asesiad o effaith tueddiadau diweddar mewn prisiau eiddo ar werth y fferm ac, os felly, beth mae hyn yn ei olygu?*

Ym mis Mehefin 2023, gwnaeth priswyr asedau Llywodraeth Cymru brisio Fferm Gilestone a chynghorwyd mai'r prisiad asedau rhydd-ddaliadol presennol yw £4.25miliwn heb gynnwys TAW.

Ar hyn o bryd mae'r farchnad yn gyffredinol (ar draws sawl sector) mewn cyflwr o ansicrwydd am resymau amlwg. Ar gyfer ffermydd, ychydig iawn sydd ar gael i'w prynu, sydd, ynghyd ag ansicrwydd cyffredinol y farchnad, yn golygu mai ychydig iawn o drafodion diweddar sydd ar gyfer seilio gwerth arnynt. Er gwaethaf hyn, mae'r fferm yn cael ei hystyried yn fferm tir isel dda gyda chyfleoedd da i arallgyfeirio ac mae wedi dal ei gwerth ers i Lywodraeth Cymru brynu'r eiddo.

## 3. Penderfyniadau terfynol, cynlluniau wrth gefn a myfyrdodau cyffredinol

*Pa ymrwymiadau y gall Llywodraeth Cymru eu rhoi ynghylch sut y bydd unrhyw benderfyniad terfynol yn cael ei gyfleu i'r gymuned leol ac i'r Senedd?*

Yn y Datganiad Ysgrifenedig dyddiedig 17 Mai 2023, ymrwymodd Gweinidog yr Economi i ymgynghori ymhellach â'r gymuned leol, a hynny wedi'i gydlynu drwy'r Cyngor Cymuned a thrwy weithio'n agos gyda Chyngor Powys ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Unwaith y bydd y gwaith hwn a'r diwydrwydd dyladwy terfynol wedi'i gwblhau, bydd gwerthusiad llawn a therfynol o opsiynau yn cael ei gyflwyno i Weinidogion i'w ystyried ac yn dilyn penderfyniad gwneir datganiad llafar i'r Aelodau.

*A yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi unrhyw ystyriaeth bellach i'w chynlluniau wrth gefn a/neu strategaeth ymadael os na ellir cytuno ar les fasnachol y mae'n ei hystyried yn*

*dderbyniol gyda'r Dyn Gwyrdd; a fydd hynny mewn digon o amser cyn diwedd y les bresennol i'r Dyn Gwyrdd baratoi i ymgymryd â rhedeg y Fferm?*

Mae trafodaethau ar gytundeb y les yn parhau ac yn fasnachol sensitif. Gallai datganiadau cyhoeddus ar unrhyw elfennau o'r trafodaethau hyn, gan gynnwys ar y cynlluniau wrth gefn neu strategaeth ymadael ragfarnu canlyniadau'r trafodaethau hynny.

Fel landlord eiddo cyfrifol, mae Llywodraeth Cymru yn rheoli ei hystad eiddo yn rhagweithiol i annog datblygiad economaidd, cadw gwerth asedau a chyflawni ei chyfrifoldebau statudol a chyfrifoldebau eraill o ran perchnogaeth.

*Beth yw eich barn chi ynghylch faint o amser mae'r broses gyfan wedi'i gymryd hyd yma o'i gymharu â'r disgwyliadau cychwynnol y gellid bod wedi ymrwymo i gytundeb les gychwynnol gyda'r Dyn Gwyrdd mor gynnar â diwedd mis Hydref 2022?*

Heb os, mae'r broses wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl. Mae hyn yn adlewyrchu'n rhannol lefel y diddordeb y mae'r mater wedi'i greu. Er enghraifft, mae Cymru Greadigol wedi gorfod cefnogi lefel ddigynsail o fusnes y llywodraeth ynghylch y prosiect hwn. Mae hyn wedi'i grynhoi isod:-

- Cwestiynau Llafar y Senedd – 3
- Cwestiynau Ysgrifenedig y Senedd – 66
- Gohebiaeth Weinidogol – 23
- Gohebiaeth ar lefel Swyddogol – 72
- Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth – 49

Mae hyn yn ychwanegol at lu o waith arall sy'n gysylltiedig â'r prosiect.

*Pa wersi y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd o'r holl broses a sut y cânt eu rhannu a'u cymhwyso, neu sut y gellir gwneud hynny, ar draws y llywodraeth?*

Mae swyddogion wedi sicrhau bod timau perthnasol ar draws Llywodraeth Cymru yn rhan o waith asesu effaith meysydd busnes eraill a'u perthnasedd iddynt. Yn ystod y broses benodol hon, mae hyn wedi cynnwys cydweithwyr o faterion gwledig, yr amgylchedd, eiddo, Digwyddiadau Cymru, a'n timau datblygu economaidd. Ar lefel Grŵp rydym yn ystyried gwersi a nodwyd yn rheolaidd yn y Pwyllgor Rheoli, yn ogystal â'n Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae gwersi perthnasol hefyd yn cael eu rhannu a'u trafod ar lefel gorfforaethol Llywodraeth Cymru, a gyda/drwy grwpiau trawsbynciol.

### *4. Materion eraill*

*Dywedoch wrth y Pwyllgor y bydd y fenter creu hyb yn creu "swyddi da iawn sy'n talu'n uchel" yn yr ardal. Sut mae Llywodraeth Cymru yn diffinio swydd "cyflog uchel", yn y cyd-destun hwn?*

O ran cyd-destun, roedd enillion wythnosol gros canolrifol i weithwyr yn y diwydiannau creadigol yn £605 yn 2022, £7 yn uwch na'r enillion wythnosol gros canolrifol ym mhob diwydiant yng Nghymru.

Mae enillion wythnosol gros canolrifol ym Mhowys yn dangos mai'r enillion wythnosol gros cyfartalog ym mhob diwydiant yw £573.

*Mewn perthynas â chynlluniau i gynnal priodasau ar y safle:*

- *Beth yw'r galw a gyfrifir am leoliadau priodas ychwanegol yn yr ardal?*
- *Pa adeilad neu adeiladau fydd yn cael eu defnyddio?*
- *Pa addasiadau i adeilad fydd eu hangen i sefydlu lleoliad priodas?*

*Nododd eich tystiolaeth gyfres o gynigion ar gyfer arallgyfeirio – sut mae Llywodraeth Cymru wedi cyfrifo effaith mentrau o'r fath ar fusnesau lleol eraill?*

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal ei hasesiadau na'i chyfrifiadau ei hun yn gysylltiedig â chynnal priodasau ar y safle nac unrhyw gynigion arallgyfeirio eraill. Mae unrhyw wybodaeth a rennir â Llywodraeth Cymru gan y Dyn Gwyrdd yn ddarostyngedig i'n diwydrwydd dyladwy, asesiadau parhaus o'r cynllun busnes, a thrafodaethau masnachol ynghylch trefniadau les posibl. O ystyried bod y trafodaethau hyn yn dal i fod yn ‘fyw’, nid ydym mewn sefyllfa i ddweud unrhyw beth pellach ar hyn o bryd.

Ers i gydweithwyr a minnau ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 5 Gorffennaf, byddwch wedi clywed bod pâr o Weilch bridio wedi’u gweld ar Fferm Gilestone. Yn unol â'r pwysigrwydd yr ydym yn ei roi i'r amgylchedd naturiol ac i wella bioamrywiaeth, mae Llywodraeth Cymru a'r Dyn Gwyrdd wedi cytuno bod yn rhaid i les yr adar a’u gwarchod fod yn flaenoriaeth inni. Roedd y ddau aderyn llawndwf wedi gadael y safle ar 14 Medi, ond gobeithiwn y byddant yn dychwelyd i'w nyth adeiledig y Gwanwyn nesaf. Ar hyn o bryd mae fy nhîm yn gweithio gydag arbenigwyr perthnasol i baratoi cynllun gwarchod a rheoli ar gyfer y safle.

Gyda dymuniadau gorau.

Yn gywir

**Andrew Slade**
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Yr Economi, Y Trysorlys a’r Cyfansoddiad

Manon Antoniazzi
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
Chief Executive and Clerk of the Senedd

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Cardiff Bay

12 Gorffennaf 2023

Annwyl Mark

Pan ysgrifennais atoch yn flaenorol ynghylch ymateb y Comisiwn i argymhellion y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a wnaed yn yr Adroddiad ar Graffu ar Gyfrifon 2021-22, ymrwymais i ddarparu rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'ch gwaith craffu yn yr hydref. Nodir y wybodaeth hon yn **Atodiad A**.

Gobeithio bod y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i'ch Pwyllgor.

Yn gywir

**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd / Chief Executive and Clerk of the Senedd**

cc Comisiynwyr y Senedd, Ed Williams

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Contact@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Contact@senedd.wales
0300 200 6565

**Atodiad 1 - Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar Graffu ar Gyfrifon 2021-22 - gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r argymhellion**

Argymhelliad 2: **Dylai'r Comisiwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am waith y Pwyllgor Sicrwydd Risg, yn benodol mewn perthynas â chynllunio ar gyfer diwygio'r Senedd yn y dyfodol, gan ganolbwyntio'n benodol ar ystyriaethau staffio a chyllido yn y dyfodol.**

Trafododd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (y Pwyllgor) y risg gorfforaethol o ran Diwygio'r Senedd yn ei gyfarfod ar 15 Mehefin 2022. Yn dilyn hyn, mae Diwygio'r Senedd bellach yn eitem sefydlog ar holl agendâu'r Pwyllgor, gyda diweddariadau yn cael eu rhoi mewn perthynas â'r rhaglenni Diwygio'r Senedd a Ffyrdd o Weithio.

Cafwyd diweddariad sylweddol ar Ddiwygio'r Senedd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 21 Tachwedd 2022. Eglurwyd y trefniadau llywodraethu ar gyfer rheoli holl elfennau'r agenda ddiwygio, yr oedd Bwrdd Rhaglen Diwygio'r Senedd yn rhan ohoni, ac fe'u darluniwyd mewn diagram. Yn ogystal â pharatoi ar gyfer busnes seneddol y Seithfed Senedd, roedd hyn hefyd yn cynnwys cydgysylltu a chefnogi taith Bil Diwygio'r Senedd a diwygio'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau a chyflawni'r rhaglen Ffyrdd o Weithio a busnes fel arfer.

Cyfeiriwyd hefyd at sefydlu Bwrdd Sicrwydd ar y Cyd Comisiwn y Senedd a Llywodraeth Cymru. Roedd y papurau hefyd yn cynnwys amserlen a cherrig milltir lefel uchel, a oedd yn cynnwys y cynnydd hyd yma. O ran y gyllideb, cadarnhawyd y byddai set o ragdybiaethau cyffredin gyda Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Taliadau Annibynnol, ac un ffynhonnell o wybodaeth ynghylch costau.

Cafodd risg Diwygio'r Senedd ei diweddaru i gynnwys risgiau ychwanegol ynghylch effaith bosibl y newid yn yr hinsawdd economaidd ar gyllidebau, capasiti, a phenderfyniadau gwleidyddol ynghylch y cyfeiriad teithio.

Cafodd y Pwyllgor sicrwydd fod y trefniadau llywodraethu priodol ar waith ac roedd am drafod yr amserlen, y cydgysylltu a'r gwaith rheoli prosiect, a'r ddibyniaeth ar y Bwrdd Taliadau Annibynnol.

Cafodd y Pwyllgor sicrwydd hefyd gan y dull o reoli prosiectau a gofynnodd am eglurder ynghylch ai Llywodraeth Cymru neu'r Comisiwn oedd yn gyfrifol am reoli'r risgiau.

Mae'r Pwyllgor wedi archwilio pa adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r holl waith. Mae'r Pwyllgor wedi cael ei sicrhau bod cynllunio gweithlu manwl yn mynd rhagddo ar y cyd â'r rhaglen Ffyrdd o Weithio. Roedd yr adnoddau ychwanegol a glustnodwyd yn y gyllideb yn seiliedig ar amser penodedig a neilltuwyd ar gyfer Diwygio'r Senedd, ac nid oedd hyn yn cynnwys rhai o'r gweithgareddau gwaith busnes fel arfer megis craffu deddfwriaethol a sgiliau seneddol. Roedd rhai adnoddau eisoes wedi'u hadleoli tra bod eraill yn cymryd cyfrifoldebau ychwanegol fel rhan o'u rolau presennol.

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr heriau o ran dyrannu amser ac adnoddau i gefnogi'r broses graffu ddeddfwriaethol ochr yn ochr â chyflawni ffrydiau gwaith y rhaglen a gweithgareddau busnes fel arfer. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi sicrwydd bod y ddeddfwriaeth ar y trywydd iawn i'w chyflwyno yn hydref 2023. Byddai risgiau'n cael eu hailasesu pan fyddai rhwymedigaethau cytundebol yn cael eu hymrwymo i Senedd fwy o faint gyda mwy o Aelodau.

Rôl yr Uned Cynllunio Strategol o ran cydlynu ac adrodd ar raglenni Diwygio'r Senedd a Ffyrdd o Weithio a phrosiectau mawr eraill i'r Bwrdd Gweithredol. Byddai'r Uned hefyd yn hwyluso cynnydd amserol o risgiau a materion sy'n dod i'r amlwg ac yn gwneud argymhellion ar flaenoriaethu adnoddau. Er mai'r Bwrdd Gweithredol oedd y corff gwneud penderfyniadau o hyd, roedd llawer o waith yn cael ei wneud ar lefel y rhaglen ac ar lefel strategol i lywio penderfyniadau.

Mae'r Pwyllgor yn parhau i fonitro cynnydd yn y ddau faes yn ofalus.

Mae cofnodion ARAC ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Senedd.

**Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor, cyn craffu ar gyfrifon y flwyddyn nesaf, o'r hyn a ddysgwyd o'r adolygiad o effeithiolrwydd ei ymateb i'r pandemig COVID-19. Dylai'r wybodaeth ddiweddaraf gynnwys manylion am sut y mae effeithlonrwydd, costau, ac arbedion o newidiadau i ffyrdd o weithio a sut y darparwyd gwasanaethau yn ystod y pandemig wedi'u hymgorffori mewn arferion presennol, a sut y mae'r arbedion hyn wedi'u gwneud yn rhai cylchol.**

Cytunom i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr hyn a ddysgodd y Comisiwn o'r adolygiad o effeithiolrwydd ei ymateb i'r pandemig COVID-19. Cyflwynwyd yr adroddiad ar y Gwersi a Ddysgwyd o Covid-19, a oedd yn canolbwyntio ar gyflawni busnes y Senedd, effeithiolrwydd llywodraethu a llesiant staff, i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Ebrill 2023 (wedi'i gynnwys isod). Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod cyfleoedd ar gyfer arbedion effeithlonrwydd yn cael eu datblygu fel rhan o'r rhaglen Ffyrdd o Weithio.

Croesawodd y Pwyllgor yr adolygiad hwn a nododd effeithiolrwydd y grŵp Adrodd a Monitro am Covid (CRAM), rheolaeth ddynamig o risg, a'r defnydd o dechnoleg ac arloesedd i alluogi arferion parhad busnes cryf.

Amlinellodd yr adroddiad fod model hybrid bellach wedi'i hen sefydlu gyda phatrymau gweithio hyblyg yn cyd-fynd ag anghenion y busnes. Roedd cyfarfodydd tîm 'yn y cnawd' achlysurol wedi dod yn nodwedd o gynlluniau llesiant mewn gwasanaethau ar draws y Comisiwn.

Roedd y Pwyllgor yn annog swyddogion i ganolbwyntio'n barhaus ar lesiant staff, a meithrin cysylltiadau a pherthnasoedd mewnol o fewn y sefydliad, ac roedd yn cydnabod yr heriau o gydbwyso hyblygrwydd a thegwch. Mae'r Pwyllgor hefyd yn annog swyddogion i fod yn ymwybodol o agweddau ymarferol fel effeithlonrwydd ynni.

Croesawodd reolwyr adborth y Pwyllgor ac roeddent yn canolbwyntio ar barhau i ddelio â'r heriau a achosir gan amrywiadau mewn patrymau gwaith tra'n cynnal tegwch gyda'r timau hynny, fel Diogelwch a Phrofiad Ymwelwyr, yr oedd angen iddynt fod ar y safle, a hyblygrwydd i dimau eraill a oedd yn gallu gweithio'n effeithiol o bell. Mae rheolwyr hefyd yn cydnabod yr angen am ryngweithio personol, yn enwedig ar gyfer aelodau newydd o'r tîm ac ar gyfer gweithgareddau datblygu staff. Byddai hyn i gyd yn rhan o'r rhaglen Ffyrdd o Weithio.

Dywedodd y Pwyllgor ei bod yn bwysig peidio â cholli golwg arno gan fod y sefydliad wedi ymdrin â'r pandemig mewn ffordd mor rhyfeddol.

Roedd y cyn Gyfarwyddwr Cyllid wedi paratoi dadansoddiad manwl ar wahân o'r costau a'r arbedion sy'n gysylltiedig â'r cyfnod Covid a'i rannu â'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn 2021, ac anfonwyd llythyr dilynol ym mis Mehefin 2022 (ychwanegwyd yma: **llythyr y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddaeth Gyhoeddus).**

**Argymhelliad 4. Dylai'r Comisiwn barhau i ddarparu manylion am y contract a ddyfarnwyd i gyflenwyr o Gymru gan y Comisiwn. Mae'r Pwyllgor yn gofyn i'r wybodaeth hon gael ei darparu yn ôl maint contract yn y dyfodol, i gynnwys contractau hyd at £10,000, rhwng £10,000 a £50,000, rhwng £50,000 a £100,000 a thros £100,000.**

**Cyflwyniad**
Mae pob contract sy'n fwy na £25,000 yn cael ei reoli'n ganolog gan dîm Caffael y Comisiwn. Caiff y gwaith o reoli contractau o dan £25,000 ei ddirprwyo i'r gwasanaethau. Mae'r Comisiwn yn ymchwilio'n barhaus i ffyrdd o gynyddu gwariant gyda chyflenwyr o Gymru. Rydym yn gwneud hyn drwy ymchwil i'r farchnad ac ymgysylltu'n gynnar â chyflenwyr.

**Gwariant gyda chyflenwyr o Gymru**
Mae gwariant gyda chyflenwyr o Gymru wedi cynyddu o 45 y cant yn 2021/22 i 47 y cant ddiwedd blwyddyn ariannol 2022/23.

**Lle rydym yn gwario ein harian**
Yn 2022/23, gwnaethom wario tua £9m ar brynu nwyddau a gwasanaethau, a gwariwyd 47 y cant o'r swm hwn yng Nghymru. Mae bron dau draean o'r gwariant hwn ar reoli cyfleusterau neu TGCh.




**Gyda phwy rydym yn gwario ein harian.**

Yn 2022/23, dangosir isod ein prif gyflenwyr o ran gwariant. Y cyflenwr rydym yn gwario’r mwyaf gydag ef yw CBRE, sef ein contractwr rheoli cyfleusterau.

| Enw’r cyflenwr | Gwariant |
|---|---|
| CBRE (rheoli cyfleusterau) | £2,313,314 |
| Bowtie Television (darlledu) | £864,279 |
| Softcat (TGCh) | £744,736 |
| EDF Energy | £479,030 |
| Total Support Services (glanhau) | £474,164 |
| Insight Direct (DU) Limited (TGCh) | £321,251 |
| *Gwasanaethau Adeiladu DDP | £320,183 |
| Gwasanaeth Arlwyo Charlton House | £246,916 |
| ESS Arlwyo | £201,271 |
| *Tremorfa Ltd (mecanyddol a thrydanol) | £198,657 |

* Cyflenwyr o Gymru , (sydd wedi eu cynnwys yng nghyfanswm CBRE).

Yn 2022/23, trosglwyddwyd 61 y cant o'r gwariant gyda CBRE i is-gontractwyr o Gymru.

**Gwariant yng Nghymru yn ôl categori**

| Gwariant yng Nghymru yn ôl categori - 2021/22 | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Chwarter1 | | Chwarter 2 | | Chwarter 3 | | Chwarter 4 | | Gwariant cronnus 2021/22 | |
| Categori | Gwariant | Canran | Gwariant | Canran | Gwariant | Canran | Gwariant | Canran | Gwariant cronnus | Canran Cronnus |
| Darlledu | £81,264.83 | 3% | £84,000.00 | 5% | £87,000.00 | 5% | £90,200.00 | 3% | £342,464.83 | 4% |
| Arlwyo | £4,237.68 | 0% | £11,543.38 | 1% | £18,224.63 | 1% | £15,988.85 | 0% | £49,994.54 | 1% |
| Glanhau | £8,921.56 | 0% | £7,371.00 | 0% | £12,238.67 | 1% | £10,167.50 | 0% | £38,698.73 | 0% |
| Rheoli Cyfleusterau | £645,858.47 | 24% | £192,738.00 | 12% | £183,707.64 | 11% | £458,857.71 | 14% | £1,481,161.82 | 16% |
| Dodrefn | £157,357.36 | 6% | £28,086.30 | 2% | £8,852.40 | 1% | £3,622.40 | 0% | £197,918.46 | 2% |
| TGCh | £117,660.54 | 4% | £254,958.92 | 16% | £134,357.02 | 8% | £595,470.12 | 18% | £1,102,446.60 | 12% |
| Arall | £89,305.24 | 3% | £101,553.27 | 6% | £245,825.83 | 15% | £317,134.81 | 9% | £753,819.15 | 8% |
| Cyfieithu | £19,839.63 | 1% | £37,202.15 | 2% | £63,025.25 | 4% | £72,196.46 | 2% | £192,263.49 | 2% |
| **Cyfanswm Gwariant Lleol** | £1,124,445.31 | 42% | £717,453.02 | 44% | £753,231.44 | 45% | £1,563,637.85 | 47% | £4,158,767.62 | 45% |
| **Cyfanswm Gwariant** | £2,650,165.54 | | £1,613,727.68 | | £1,668,866.53 | | £3,338,411.63 | | £9,271,171.38 | |

| Gwariant yng Nghymru yn ôl categori - 2022/23 | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Chwarter 1 | | Chwarter 2 | | Chwarter 3 | | Chwarter 4 | | Gwariant Cronnus 2022/23 | |
| Categori | Gwariant | Canran | Gwariant | Canran | Gwariant | Canran | Gwariant | Canran | Gwariant Cronnus | Canran Cronnus |
| Darlledu | £88,000.00 | 4% | £89,250.00 | 4% | £94,500.00 | 5% | £93,600.00 | 3% | £365,350.00 | 4% |
| Arlwyo | £25,987.75 | 1% | £12,389.31 | 1% | £54,856.11 | 3% | £28,186.33 | 1% | £121,419.50 | 1% |
| Glanhau | £8,687.56 | 0% | £8,075.47 | 0% | £9,420.75 | 0% | £13,680.35 | 0% | £39,864.13 | 0% |
| Rheoli Cyfleusterau | £613,824.30 | 27% | £238,673.70 | 12% | £285,830.84 | 15% | £425,811.84 | 15% | £1,564,140.68 | 17% |
| Dodrefn | £25,347.00 | 1% | £38,891.94 | 2% | £14,733.30 | 1% | £26,190.00 | 1% | £105,162.24 | 1% |
| TGCh | £98,100.60 | 4% | £93,424.96 | 5% | £100,453.95 | 5% | £112,084.66 | 4% | £404,064.17 | 4% |
| Arall | £250,580.94 | 11% | £423,013.29 | 20% | £341,964.29 | 17% | £342,806.63 | 12% | £1,358,365.15 | 15% |
| Cyfieithu | £62,328.70 | 3% | £32,655.44 | 2% | £84,209.20 | 4% | £82,460.23 | 3% | £261,653.57 | 3% |
| **Cyfanswm Gwariant Lleol** | £1,172,856.85 | 52% | £936,374.11 | 45% | £985,968.44 | 50% | £1,124,820.04 | 41% | £4,220,019.44 | 47% |
| **Cyfanswm Gwariant** | £2,256,712.59 | | £2,073,204.22 | | £1,961,509.32 | | £2,774,073.48 | | £9,065,499.61 | |

**Dosbarthiad y contractau a ddyfarnwyd yn ystod 2022-23**

| Gwerth y contract | Nifer y contractau | Contractau yng Nghymru |
|---|---|---|
| >£100,000 | 16 | 6 |
| >£50,000 | 8 | 5 |
| >£10,000 | 51 | 19 |
| <£10,000 | 274 | 134 |

**Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn annog y Comisiwn i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf, pan fydd ar gael, am brosiectau recriwtio staff sydd â'r nod o gynyddu amrywiaeth y sefydliad yn ei gyfanrwydd, yn ogystal â'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y prosiect YMLAEN, ymhlith eraill.**

Caiff pob ymgyrch recriwtio ei chynllunio i wneud y gronfa ymgeiswyr mor amrywiol ac eang â phosibl. Mae ein system recriwtio ddienw a'n dull strwythuredig o gynnal cyfweliadau ac asesiadau yn galluogi ymgeiswyr swyddi i fod yn hyderus na fydd rhagfarn yn rhan o'r broses ymgeisio. Rydym hefyd wedi parhau i wneud y canlynol:

- Partneru'n strategol ag asiantaeth chwilio weithredol i amrywio'r doniau a'r paneli ar gyfer uwch-benodiadau'r Comisiwn, penodiadau cyhoeddus a phenodiadau'r Goron;
- Monitro prosesau recriwtio a gwella dyluniad asesiadau;
- Creu strategaethau hysbysebu pwrpasol ar gyfer ymgyrchoedd, gwella amrywiaeth paneli, a llunio disgrifiadau swydd a phecynnau ymgeiswyr cynhwysol; ac
- Adolygu adborth gan ymgeiswyr a rheolwyr cyflogi, a chymryd camau o ganlyniad lle bo'n briodol, oll gyda golwg ar ddenu'r ystod ehangaf o dalent.

Gweithgareddau datblygu recriwtio
Dros y flwyddyn, mae ein Tîm Recriwtio wedi datblygu cynllun denu ymgeiswyr sy'n cynnwys strategaethau i ehangu ein ffrwd dalent, denu ymgeiswyr i swyddi gwag anodd eu llenwi a datblygu deunyddiau marchnata a gweithgareddau allgymorth yn barhaus. Mae ein dull gweithredu yn ystyried gwahanol gynulleidfaoedd a'u gwahanol ofynion o ran derbyn gwybodaeth yn ddigidol ac wyneb yn wyneb. Hefyd, adolygwyd y canllawiau i ymgeiswyr er mwyn rhoi eglurder ar y prosesau presennol a rhoi sicrwydd i ymgeiswyr a allai fod yn anabl ynghylch yr addasiadau rhesymol y gellir eu gwneud drwy gydol y broses recriwtio. Byddwn yn datblygu ac yn cylchdroi cynnwys deinamig ar ein tudalennau gwe gyrfaoedd, gan roi cipolwg gan staff ar weithio i Gomisiwn y Senedd a gwybodaeth am ein gwaith amrywiaeth a chynhwysiant fel sefydliad.

Maes gwaith allweddol arall yw'r adolygiad o ganllawiau a deunyddiau hyfforddi rheolwyr recriwtio gyda'r bwriad o ddatblygu pecyn cymorth recriwtio cynhwysol i staff sy'n cymryd rhan mewn paneli recriwtio. Bydd cysyniadau rhagfarn, braint a chreu profiad cadarnhaol i ymgeiswyr yn themâu canolog drwy gydol y canllawiau a'r deunyddiau hyfforddi, sydd wrthi'n cael eu drafftio.

YMLAEN – ein Hinterniaeth i Raddedigion Lleiafrifoedd Ethnig
Eleni, rydym wedi croesawu pedwar intern i Gomisiwn y Senedd gyda'r bwriad o roi'r sgiliau, y wybodaeth a'r adnoddau iddynt sicrhau rolau rheoli yn y sector cyhoeddus.

Drwy weithio mewn partneriaeth â Chymrodoriaeth Windsor i gyflwyno'r rhaglen, bu modd i ni hysbysebu a hyrwyddo i gymunedau amrywiol ledled Cymru, gan arwain at 63 o geisiadau am y pedair swydd. Roedd safon yr ymgeiswyr yn uchel ac yn dangos yn glir y gall y Senedd ddenu ymgeiswyr yn llwyddiannus o ystod lawer ehangach o gymunedau.

Mae'r interniaid wedi ymgymryd â hyfforddiant helaeth i ddatblygu sgiliau arwain a sgiliau technegol, sydd wedi'u cynllunio â'r gobaith o roi'r cyfle gorau posibl iddynt sicrhau cyflogaeth mewn meysydd arbenigol ar lefel rheolwr canol neu uwch. Gwnaed gwaith sylweddol i baratoi'r timau a oedd yn derbyn yr interniaid, gan ymgysylltu â nhw a gwella'u sgiliau, a hysbysu'r Senedd ehangach am fanteision y cynllun hwn. O ganlyniad, roedd yr interniaid a'u timau'n teimlo'u bod yn cael eu cefnogi.

Mae’r Comisiwn wedi lansio ein hail Raglen YMLAEN yn llwyddiannus, yn dilyn yr un broses a chyda’r un amcanion rhaglen. Y nod yw y bydd ein carfan nesaf yn dechrau interniaeth yn y Senedd ym mis Medi 2023.

<u>Dogfennau atodol Cyf Argymhelliad 3:</u>

ARAC Gwersi a ddysgwyd o COVID-

PTN 3 - Llythyr gan Gomisiwn y Senedd

Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd
Senedd Commission Audit & Risk Assurance Committee

**Dyddiad:** 27 Ebrill 2023
**Amser:** 14.00 - 16.30
**Lleoliad:** Hybrid - Ystafell gynadledda 4B/Zoom
**Awdur:** Gareth Watts, Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd / Pennaeth Archwilio Mewnol

**ARAC (23-02) Papur 8 (Eitem 8)**

# Comisiwn y Senedd

# Adolygiad Archwilio Mewnol

## Gwersi a ddysgwyd o COVID-19

## Mawrth 2023

| | |
|---|---|
| Adolygwyd gan: | Gareth Watts, Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd |

# Cynnwys

**01. Crynodeb gweithredol ........ 4**

01.1. Cyflwyniad a gwybodaeth gefndir ........ 4

1.2 Cwmpas ........ 4

1.3 Gwaith pellach ........ 4

1.4 Cydnabyddiaeth ........ 4

**02. Canfyddiadau manwl ........ 5**

2.1 Cyflawni Busnes y Senedd ........ 5

**Beth wnaethom ni? ........ 9**

**Beth y gwnaethom ei ddysgu? ........ 10**

2.2 Llywodraethu a gwneud penderfyniadau ........ 11

**Beth wnaethom ni? ........ 15**

**Beth y gwnaethom ei ddysgu? ........ 16**

2.3 Llesiant Staff ........ 17

**Beth wnaethom ni? ........ 19**

**Beth y gwnaethom ei ddysgu? ........ 20**

# 01. Crynodeb gweithredol

## 01.1. Cyflwyniad a gwybodaeth gefndir

1.1.1 Mae'r adolygiad hwn yn crynhoi agweddau ar ymateb y Comisiwn i bandemig COVID-19.

1.1.2 Mae'n adeiladu ar waith cynharach a wnaed yn ystod y pandemig ac yn amlinellu:

- Crynodeb naratif o sut wnaeth y Comisiwn ymateb
- Yr hyn a wnaeth y Comisiwn
- Yr hyn rydym wedi'i ddysgu a sut mae hyn yn cael ei ddatblygu

## 1.2 Cwmpas

1.2.1 Mae'r adolygiad yn myfyrio ar dri maes:

- Cyflawni Busnes y Senedd
- Llywodraethu a gwneud penderfyniadau
- Llesiant staff

## 1.3 Gwaith pellach

1.3.1 Lle bo'n briodol, bydd gwaith archwilio mewnol pellach o’r cymorth llywodraethu yn cael ei wneud yn y meysydd a nodir yn yr adroddiad. Mae hyn yn cynnwys archwiliad mewnol wedi'i gynllunio o'r defnydd o'r cerdyn caffael a'r cymorth llywodraethu ar gyfer datblygu rôl rhwydweithiau staff.

## 1.4 Cydnabyddiaeth

1.4.1 Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd at yr adolygiad.

# 02. Canfyddiadau manwl

## 2.1 Cyflawni Busnes y Senedd

2.1.1 Roedd buddsoddiad mewn technoleg, ynghyd ag agwedd 'digidol yn ddiofyn' tuag at fusnes ers 1999, yn galluogi'r Comisiwn i addasu'n gyflym ac yn effeithiol i ffyrdd newydd o weithio. Canolbwyntiwyd ar wneud penderfyniadau amserol ac effeithiol, cyfathrebu clir, defnydd effeithlon o alluoedd digidol, a diogelwch, iechyd a llesiant pawb. Yn adroddiad blynyddol 2020-2021 amlinellwyd sut roedd y Comisiwn wedi ymateb i bandemig COVID-19 gan gyflwyno'r Cyfarfod Llawn ar-lein, a galluogi'r Senedd i barhau â'i gwaith ac i fod y Senedd gyntaf yn y DU i gwrdd yn rhithwir pan gynghorwyd pob un ohonom i weithio gartref.

2.1.2 Wrth i'r pandemig barhau, trodd ffocws y Comisiwn at ddychwelyd i 'fusnes fel arfer' cymaint ag y gallem, er ei bod yn anochel bod y ffocws ar gyfer pob busnes ffurfiol yn parhau i fod ar y pandemig. Roedd hyn yn golygu ehangu'r busnes a gyflwynir yn y Cyfarfod Llawn a galluogi cyfarfodydd pwyllgorau rhithiwr er mwyn caniatáu i'r gwaith craffu barhau. Cafodd rheolau sefydlog brys, ar gyfer parhad y Senedd yn ystod argyfwng iechyd y cyhoedd, drwy hwyluso trafodion rhithwir a hybrid ar gyfer y Cyfarfod Llawn, eu cwblhau mewn dau ddiwrnod, a'u derbyn a'u profi mewn cyfarfod corfforol ar 24 Mawrth 2020. Roedd y rheolau sefydlog brys hyn yn darparu ar gyfer darpariaethau adalw newydd, cworwm llai, hyblygrwydd o ran mynediad y cyhoedd, a phleidleisio wedi'i bwysoli. Y cyfarfod hwnnw ar 24 Mawrth, gyda llai o Aelodau yn bresennol, oedd y tro diwethaf i Aelodau gwrdd yn gorfforol yn y Siambr am bron i bedwar mis.

2.1.3 Yn wahanol i lawer o seneddau eraill, nid yw'r statud a'r rheolau sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd gwrdd mewn man penodol. Mae'n ofynnol i'r Aelodau 'gymryd rhan' yn hytrach na bod yn 'bresennol'. Nid oes rhwystrau cyfansoddiadol na gweithdrefnol i gwrdd o bell, ar yr amod y gall y trafodion fod yn ddwyieithog (Cymraeg-Saesneg).

2.1.4 Gyda dim ond pum niwrnod o rybudd, cynhaliodd swyddogion y Comisiwn gyfarfod llawn rhithwir cyntaf y Senedd trwy Zoom ddydd Mercher 1 Ebrill 2020. Dyma oedd y sesiwn seneddol gyntaf i gael ei chynnal drwy fideogynadledda yn y DU. Cytunodd y grwpiau i gyfyngu presenoldeb i ddim mwy nag ugain Aelod, ac roedd y pedwar Aelod annibynnol i gyd yn gallu bod yn bresennol. Yn unigryw, yn wahanol i bob cyfarfod llawn cyn ac ers hynny, ni chafodd y cyfarfod rhithwir cyntaf hwn ei ddarlledu'n fyw. Yn lle hynny, trefnwyd bod recordiad llawn ar gael yn syth ar ôl y cyfarfod. Darparwyd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd Cymraeg-Saesneg (gofyniad statudol) yn ôl yr arfer. Ym mis Ebrill a mis Mai gwelwyd newidiadau i weithrediad y Cyfarfod Llawn rhithwir wrth i'r Aelodau a swyddogion ddysgu o brofiad ac addasu yn unol â hynny.

2.1.5 Cytunodd Pwyllgor Busnes y Senedd, sy'n ystyried trefn busnes, gynnydd graddol yn nifer yr Aelod[illegible] Cyfarfod Llawn rhithwir ac, o 1

Mehefin, gallai unrhyw Aelod a oedd yn dymuno mynychu wneud hynny. Sefydlwyd patrwm o un Cyfarfod Llawn rhithwir bob wythnos. Roedd busnes craidd yn cynnwys datganiadau'r Llywodraeth ar COVID-19, gyda chwestiynau gan arweinwyr y pleidiau ac Aelodau eraill, ac ystyried deddfwriaeth i gymeradwyo rheoliadau COVID-19. Dros amser, ehangwyd yr ystod busnes i gynnwys materion y tu hwnt i COVID-19:

- ar 4 Mai, ailgyflwynwyd Cwestiynau Amserol, gan alluogi Aelodau i holi Gweinidogion ynghylch materion nad ydynt fel arall ar yr agenda;
- un awr o amser anllywodraethol yr wythnos - dadleuon yr wrthblaid fel arfer - wedi'i threfnu o 3 Mehefin, gyda'r amod gan y Pwyllgor Busnes i ddechrau bod yn rhaid iddynt fod yn gysylltiedig â COVID-19; a
- phenderfynodd y Llywydd, ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes fel sy'n ofynnol gan y rheolau sefydlog brys, ailgyflwyno cwestiynau llafar i'r holl Weinidogion o 24 Mehefin ar ôl absenoldeb o dri mis.

2.1.6 Gyda chyfarfodydd hybrid ym mis Gorffennaf, gwelwyd camau cyntaf gofalus y 'normal newydd': y Senedd yn cyfarfod mewn fformat hybrid gyda phleidleisio electronig o bell, a phwyllgorau'n cyfarfod yn rhithwir. Roedd angen meddwl yn ofalus er mwyn sicrhau bod y dechnoleg yn caniatáu cynnal trafodion yn ddi-dor, gan gysylltu Aelodau o bob cwr o'r wlad â'r rhai yn y Siambr. Roedd yn hanfodol bod cyfarfodydd yn parhau i gael eu darlledu ar Senedd TV ac ar sianel YouTube seneddol. Cynhaliwyd profion trylwyr ar amrywiol lwyfannau a chymwysiadau i ddatblygu system i gefnogi ffrwd sain ddwyieithog yn Gymraeg neu'n Saesneg, gan ganiatáu i Aelodau gyfrannu, ac i wylwyr wylio, yn eu dewis iaith, ac a oedd yn caniatáu i'r cyfranwyr symud yn esmwyth o un iaith i'r llall heb effeithio ar lif y trafodion. Ysgogodd hyn lawer o sefydliadau cyhoeddus a phreifat i gysylltu â Chomisiwn y Senedd i gael cyngor ac arweiniad ar gynnal eu cyfarfodydd dwyieithog eu hunain.

2.1.7 Rhwng mis Ebrill 2020 a mis Gorffennaf 2020, gweithredodd y Senedd system 'pleidleisio wedi'i bwysoli' a oedd yn golygu bod un Aelod o bob plaid yn pleidleisio ar ran eu holl Aelodau. Roedd Aelodau annibynnol yn gallu bwrw eu pleidleisiau eu hunain hefyd. Er mai mesur dros dro oedd hwn, roedd cydnabyddiaeth gynnar ymhlith y Pwyllgor Busnes a'r Aelodau y dylem ddychwelyd i bleidleisio unigol cyn gynted â phosibl, yn enwedig ar ôl i'r Senedd ddychwelyd i ystyried deddfwriaeth sylfaenol. Dechreuodd swyddogion weithio ar system newydd er mwyn galluogi Aelodau i bleidleisio'n unigol ac o bell. Erbyn canol mis Mehefin, roedd cynnydd yn ddigon datblygedig i'r Pwyllgor Busnes gytuno mewn egwyddor i gyflwyno'r system newydd a chynnig newidiadau pellach dros dro i reolau sefydlog er mwyn caniatáu i Aelodau 'bleidleisio'n electronig o unrhyw leoliad'. Un o'r prif heriau gyda'r datblygiad oedd diogelu cywirdeb y bleidlais. Roedd yn hanfodol sicrhau mai dim ond y rhai sydd â hawl i bleidleisio a allai wneud hynny ac mai dim ond unwaith y byddai pleidlais yn cael ei chofnodi. Gan ddefnyddio technolegau presennol crëwyd cymhwysiad ar-lein. Roedd hyn yn caniatáu i'r Aelodau bleidleisio'n ddiogel, gan

ddefnyddio eu dewis o ddyfais yn eu lleoliad o ddewis. Erbyn diwedd mis Mehefin, roedd y Llywodraeth yn trefnu mwy o fusnes nad oedd yn ymwneud â COVID-19.

2.1.8 Wrth i fusnes ehangu y tu hwnt i raglen frys, roedd y Llywydd yn awyddus i'r Senedd dreialu cyfarfodydd hybrid cyn toriad yr haf, fel bod gan rai Aelodau yr opsiwn o fynychu'r Senedd wrth i'r cyfyngiadau symud lacio. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cynnal y ddau Gyfarfod Llawn olaf sydd wedi'u trefnu cyn y toriad, ar 8 a 15 Gorffennaf, mewn fformat hybrid. Cytunwyd y gallai 20 o Aelodau fod yn bresennol yn gorfforol yn y Siambr. Byddai'r holl Aelodau eraill yn gallu cymryd rhan yn rhithwir drwy Zoom. Defnyddiwyd pleidleisio electronig o bell am y tro cyntaf ar 8 Gorffennaf. Ar 13 Gorffennaf, penderfynodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r Senedd, o fis Medi ymlaen, yn dychwelyd i'w phatrwm arferol o ddau Gyfarfod Llawn yr wythnos ac amserlen fusnes 'normal', a rhagwelodd y byddai'r Cyfarfod Llawn mewn fformat hybrid hyd y gellir rhagweld.

2.1.9 Cymeradwyodd y Pwyllgor Busnes egwyddorion y byddai'r Llywydd yn eu defnyddio wrth benderfynu fformat y Cyfarfod Llawn yn ystod cyfnodau o gyfyngiadau lleol a chenedlaethol, yn amrywio o rai corfforol, i fodelau amrywiol o ffurf hybrid, i gyfarfodydd cwbl rithwir.

2.1.10 Cyn y pandemig, roedd pwyllgorau'r Senedd, o bryd i'w gilydd, wedi cyfarfod mewn fformat hybrid gyda rhai Aelodau a thystion yn cymryd rhan drwy fideo neu telegynhadledd. Fodd bynnag, roedd adleoli holl drafodion y pwyllgor i'r gofod rhithwir yn ystod y pandemig yn ddigynsail. Er mwyn helpu i gefnogi'r newid hwn, ar 17 Mawrth 2020, roedd y Pwyllgor Busnes o'r farn 'y dylai'r pwyllgorau, am y dyfodol, ganolbwyntio ar fusnes hanfodol'. Er bod pwyllgorau yn endidau awtonomaidd sy'n penderfynu ar eu rhaglenni gwaith eu hunain, arweiniodd barn y Pwyllgor Busnes, ynghyd ag ymwybyddiaeth ymhlith Cadeiryddion Pwyllgorau, Aelodau a swyddogion y byddai ffocws gwasanaethau cyhoeddus Cymru ar unwaith ar reoli'r pandemig, at fwyafrif helaeth y pwyllgorau yn oedi'r holl waith nad oedd yn gysylltiedig â Covid-19. Yn fuan ar ôl dechrau cyfyngiadau symud, adolygwyd amserlen y pwyllgorau mewn ymateb i gau'r ystâd a'r angen i flaenoriaethu adnoddau technegol i gefnogi busnes y Cyfarfod Llawn. Yn ystod y cyfnod hwn, bu Cadeiryddion Pwyllgorau yn gweithio gyda'i gilydd i gydgysylltu gwaith craffu ar draws pwyllgorau, gan gytuno'n benodol ar ddull ar gyfer Craffu ar Waith y Prif Weinidog ar gynlluniau adfer COVID-19 ac i wneud y defnydd gorau o amser yr Aelodau a'r Gweinidogion. Mabwysiadodd pob pwyllgor ei ddull ei hun o graffu i adlewyrchu ei gyfrifoldebau portffolio.

2.1.11 Lansiodd mwyafrif y pwyllgorau ymchwiliadau cyffredinol COVID-19 i gwmpasu pob mater yn eu cylch gwaith, gan gynnwys galwadau treigl am dystiolaeth ysgrifenedig a thystiolaeth lafar gan Weinidogion a rhanddeiliaid perthnasol. Fodd bynnag, tan ganol mis Mehefin, roedd cyfyngiadau technolegol a chapasiti gweithio o bell yn atal mwy nag un cyfarfod cyhoeddus rhag digwydd ar y tro. Roedd hyn yn lleihau'r amser cyfarfod oedd ar gael, gan arwain at ddewisiadau

anodd ynglŷn â chymryd tystiolaeth ac amser tystion. Erbyn mis Medi 2020, roedd pwyllgorau'n gallu dychwelyd i batrwm wythnosol o gyfarfodydd ac ystod ehangach o fusnesau, er bod craffu ar faterion yn ymwneud â Covid-19 a deddfwriaeth yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Rhoddwyd cyfleusterau ar waith i alluogi cyfarfodydd pwyllgor hybrid. Pan fo'n briodol, mae'r model hwn wedi dod yn un o'r opsiynau arferol sydd ar gael i bwyllgorau ar gyfer y Chweched Senedd.

2.1.12 Cymhlethdod ychwanegol a wynebodd y Senedd yn ystod y pandemig oedd rhywfaint o ansicrwydd ynghylch union amser etholiad y Senedd a drefnwyd ar gyfer mis Mai 2021.

2.1.13 Roedd Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021 wedi creu ansicrwydd ynghylch dyddiad Etholiadau'r Senedd ac wedi lleihau'r cyfnod diddymu i wythnos. Arweiniodd y Ddeddf at y Canllawiau Diddymu, a gafodd eu drafftio a'u cyhoeddi gyntaf ym mis Tachwedd 2020, i'w diweddaru a'u hailgyhoeddi ar ddau achlysur gwahanol, gyda'r fersiwn ddiweddaraf yn cael ei chyhoeddi ddiwedd mis Mawrth 2021, lai na phythefnos cyn dechrau'r cyfnod cyn yr etholiad. Parhaodd yr ansicrwydd tan wythnos cyn Etholiadau'r Senedd. Roedd cymhlethdod ychwanegol hefyd o beidio â gwybod pa gyfyngiadau COVID-19 a fyddai ar waith yn ystod yr Etholiadau felly roedd sawl cynllun wedi'i baratoi ymlaen llaw i gwmpasu cyngor a threfniadau ar gyfer ystod o gynlluniau wrth gefn. Unwaith y cadarnhawyd canlyniadau Etholiad y Senedd, bu staff y Comisiwn yn gweithio ar draws timau i groesawu Aelodau newydd a'r rhai a oedd yn dychwelyd, ac un o'r gweithgareddau cyntaf i'w wneud oedd sicrhau bod pob Aelod yn gallu tyngu Llw.

2.1.14 Fel arfer, mae'r holl weithgareddau croeso a chyfeirio yn cael eu gwneud wyneb yn wyneb. Eleni, gan adlewyrchu'r gofynion ar gyfer cadw pellter cymdeithasol a'r uchafswm lefelau capasiti ar gyfer yr ystâd, cyfunwyd gweithgareddau wyneb yn wyneb ar y safle â chymryd llw yn rhithwir. Cynhaliwyd y digwyddiad croesawu ar gyfer y 60 Aelod newydd eu hethol o'r Chweched Senedd rhwng prynhawn dydd Gwener a phrynhawn dydd Llun, gyda phob un ohonyn nhw'n tyngu llw a mynegi eu teyrngarwch, o flaen

2.1.15 Clerc y Senedd, gan ymgymryd â'r camau cynefino cychwynnol ar gyfer y rôl – 35 yn y Senedd, 3 yn swyddfa'r gogledd a 22 yn rhithwir. Etholwyd 20 Aelod am y tro cyntaf. Roedd staff y Comisiwn wrth law i helpu Aelodau gyda materion ymarferol fel gofod swyddfa ac offer TGCh yn ogystal â chyngor ar eu rôl newydd, diogelwch a chymorth i gyflogi staff. Roedd cymryd llw rhithwir oherwydd COVID-19 yn boblogaidd ac roedd mantais ychwanegol o alluogi Aelodau i dyngu eu llw yn eu hetholaeth neu ranbarth, neu ym mhresenoldeb teulu a ffrindiau. Bydd cymryd llw rhithwir ar gael yn dilyn Etholiadau yn y dyfodol.

2.1.16 Ar ôl tyngu Llw, roedd pob un o'r 60 Aelod yn gallu cymryd rhan yng Nghyfarfod Llawn cyntaf y Chweched Senedd. Yn y cyfarfod hwnnw etholodd y Senedd y Llywydd (Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS) a'r Dirprwy Lywydd (David Rees

AS) a chytunodd i enwebu Mark Drakeford AS yn Brif Weinidog. Gan fod rheolau cadw pellter cymdeithasol yn parhau i fod ar waith bryd hynny, cynhaliwyd y cyfarfod ar ffurf hybrid gydag 20 Aelod yn y Siambr a’r 40 Aelod arall yn ymuno ar-lein o’u swyddfeydd yn Nhŷ Hywel.

2.1.17 Unwaith y gwnaeth y Prif Weinidog benodi Gweinidog i fod yn gyfrifol am fusnes y llywodraeth, cafodd y Pwyllgor Busnes ei sefydlu, gan ddechrau ar y drefn arferol o drefnu busnes seneddol wythnosol. Un o gyfrifoldebau cynnar y Pwyllgor Busnes oedd cynnig Aelodau i fod yn bedwar Comisiynydd y Senedd, fel arfer un o bob grŵp gwleidyddol. Am y tro cyntaf roedd llai na phedwar grŵp gwleidyddol ymysg Aelodau o’r Senedd. Roedd hyn yn golygu bod yn rhaid i’r Pwyllgor Busnes benderfynu pwy ddylai’r pedwerydd Comisiynydd fod.

2.1.18 Dros yr wythnosau dilynol, cyflwynodd swyddogion y Comisiwn amrywiaeth o sesiynau cynefino pellach ar gyfer Aelodau a’u staff gan gwmpasu pynciau fel cymryd rhan yn y Cyfarfod Llawn, deall eu rôl fel cyflogwr a rheolydd data, a’u cefnogi i sefydlu eu swyddfeydd etholaethol. Ac eithrio’r hyfforddiant ymarferol a ddarperir yn y Siambr, cafodd yr holl sesiynau cynefino craidd eu darparu’n rhithwir. Roedd hyn yn angenrheidiol ar y pryd oherwydd cyfyngiadau COVID-19, ond fe weithiodd yn dda hefyd, gan roi hyblygrwydd i Aelodau gyda’u hymrwymiadau eraill, yn ogystal â chyfle i ymgyfarwyddo â’n systemau TGCh drwy hyfforddiant. Mae’n rhywbeth y byddwn yn ystyried ei ddarparu yn yr Etholiad nesaf hefyd

# Beth wnaethom ni?

- Defnyddio technoleg, a thrwy hynny fod y ddeddfwrfa gyntaf yn y DU i gynnal busnes seneddol ar-lein.
- Cyflwyno Rheolau Sefydlog 34.10 a 34.11 i leihau'r cworwm sy'n ofynnol ar gyfer sesiynau’r Cyfarfod Llawn a chaniatáu pleidleisio wedi'i bwysoli gydag un aelod o grŵp plaid yn cael yr un nifer o bleidleisiau ag aelodau'r grŵp hwnnw (gweler hefyd yr adran ar Bleidleisio drwy Ddirprwy). Gweithredwyd hyn i leihau nifer yr aelodau yr oedd eu hangen yn y Siambr. Defnyddiwyd y system hon cyn i Reolau Sefydlog 34.14A-D gael eu cyflwyno ar 8 Gorffennaf 2020 i ganiatáu i Aelodau bleidleisio’n electronig o’u cartrefi. Mae'r Rheolau Sefydlog olaf yn parhau i fod ar waith.
- Mabwysiadu dull hyblyg wrth drefnu amserlen busnes y Senedd, wedi’i gyfyngu i ddechrau i faterion yn ymwneud yn uniongyrchol â COVID-19 ond gan ehangu hyn dros amser.
- Gweithio ar y cyd rhwng y Pwyllgor Busnes, Cadeiryddion Pwyllgorau, Aelodau eraill a swyddogion y Comisiwn mewn perthynas â’r gwaith o ddatblygu busnes pwyllgorau. Cafodd y pwyllgorau eu hatal ar 23 Mawrth 2020. Yn dilyn hyn, rhoddodd y Senedd flaenoriaeth i drefniadau ar gyfer sesiynau rhithwir o’r Cyfarfod Llawn. Roedd hyn yn golygu bod rhai cyfrifoldebau pwyllgor yn y broses ddeddfwriaethol yn cael eu trosglwyddo i'r Cyfarfod Llawn dros dro.

Ailymgynullodd y pwyllgorau yn rhithwir o 29 Ebrill 2020. Dechreuodd cyfarfodydd pwyllgor hybrid o 2 Hydref 2020. Mae pwyllgorau wedi bod yn cynnal cyfarfodydd hybrid ers hynny.

- Roedd y Comisiwn yn gallu addasu'n gyflym i amrywio ei ddull o bontio o'r bumed i'r chweched Senedd a gweithgareddau cynefino'r Aelodau yn ystod gwanwyn a haf 2021, a gafodd eu cymhlethu gan lawer o ansicrwydd, cyfnod diddymu is, a'r rheoliadau cadw pellter cymdeithasol. Rheolwyd y broses yn effeithiol a defnyddiwyd methodoleg rheoli risg briodol i reoli'r risg mewn modd effeithiol.

# Beth y gwnaethom ei ddysgu?

- Mae buddsoddiad parhaus mewn caledwedd a meddalwedd TGCh yn elfen allweddol o ddiogelu gwytnwch y Comisiwn. Er mwyn mynd i'r afael â heriau posibl eraill yn y dyfodol, dylai buddsoddiad o'r fath fod ochr yn ochr â dull effeithiol a chadarn o ymdrin â seiberddiogelwch i liniaru yn erbyn sefyllfaoedd parhad busnes yn y dyfodol, a allai gyflwyno heriau technolegol gwahanol fel ymosodiadau seiber. Ar hyn o bryd, bwriedir i archwiliad parhad busnes sy'n canolbwyntio ar ddull y sefydliad o ymdrin â pharhad busnes TGCh ac adfer ar ôl trychineb gael ei weithredu.
- Mae'r Senedd wedi dangos y gall fod yn ystwyth a hyblyg mewn argyfwng, a bod ganddi'r hyblygrwydd i wneud newidiadau dros dro i reolau'r weithdrefn. Rydym yn parhau i adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd wrth symud ymlaen.
- Mae pwyllgorau rhithwir, neu o leiaf hybrid, wedi dod yn nodwedd o fusnes y Senedd. Mae ystyried sut i ymelwa ar fanteision y maent wedi'u dangos – yn enwedig casgliad mwy agored, amser real o leisiau amrywiol a safbwyntiau sy'n bell o'i gilydd yn ddaearyddol yn her i bob senedd. Mae pwyllgorau'r Senedd yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hyn gan wahodd tystion arbenigol o wledydd mor bell ag Awstralia i ychwanegu gwerth at waith craffu ac ymchwilio pwysig pwyllgorau.
- Mae'r pwyllgorau hefyd yn cydnabod eu cyfleoedd i gael cydbwysedd o ran cynnal cyfarfodydd pan nad ydynt yn yr un ystafell – gan gynnwys cyfleoedd i dystion allweddol fel gweinidogion fod yn bresennol yn y cnawd neu yn ystod gwrandawiadau cyn penodi mewn perthynas â phenodiadau cyhoeddus.
- Mae gan dechnoleg y potensial i sicrhau cydbwysedd gwahanol rhwng presenoldeb yn yr etholaeth a phresenoldeb yn y Senedd ac, wrth wneud hynny, newid pwy sy'n gallu cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth. Hyd yn oed os yw bod yn bresennol yn y Senedd yn parhau i fod yn bwysig ac weithiau'n angenrheidiol, gellir hwyluso cyfranogiad o bell o hyd os oes awydd gan Aelodau, ac mae swyddogion y Comisiwn yn parhau i fod yn barod i sicrhau bod anghenion Aelodau yn cael eu diwallu i sicrhau y gall y ffyrdd hybrid parhaus o weithio barhau lle bo angen.

- Roedd pleidleisio o bell yn bwysig yn ystod y cyfnodau clo i alluogi busnes deddfwriaethol pwysig i barhau. Yn y byd ar ôl y pandemig mae amrywiaeth o safbwyntiau o ran parhau â phleidleisio rhithwir ac mae hwn yn benderfyniad gwleidyddol. Mae swyddogion y Comisiwn o bob rhan o'r sefydliad gan gynnwys staff TGCh a Busnes y Senedd yn parhau i roi'r holl wybodaeth briodol i'r Llywydd, y Pwyllgor Busnes a phobl eraill sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch y buddion a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r broses hon – er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus.
- Gellir defnyddio'r broses o dyngu llw yn rhithwir yn y dyfodol gydag Aelodau newydd.
- Mae busnes seneddol rhithwir wedi arwain at ailfeddwl am strategaethau ystadau. Efallai na fydd angen i seneddau ehangu ystadau mwyach i ddarparu ar gyfer ein deddfwyr mewn un lle. Mae'r cyfleoedd a'r syniadau newydd hyn yn cael eu hymgorffori yn y Rhaglen Ffyrdd o Weithio.

## 2.2 Llywodraethu a gwneud penderfyniadau

2.2.1 Cafodd y Comisiwn, fel pob sefydliad arall yn y DU a ledled y byd, ei effeithio gan COVID-19. Yn yr ychydig ddyddiau yn dilyn y cyfnod cyfyngiadau symud ym mis Mawrth 2020, roedd yn amlwg na fyddai'r Comisiwn yn gallu mynd yn ôl i'r ffordd yr oedd pethau, ac felly roedd angen cynllun dychwelyd i'r ystâd wedi'i gynllunio a'i gydgysylltu'n ofalus. Yn fuan, penododd y Bwrdd Gweithredol Reolwr Rhaglen, Cynghorydd ac Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer Dychwelyd i'r Ystâd, a chawsant eu penodi o fewn y gweithlu presennol. Gan weithio gydag arweinwyr o bob rhan o'r sefydliad, sefydlwyd tîm cyflenwi newydd, o fewn y gweithlu presennol, yn cynnwys chwe llif gwaith yn ymwneud â'r canlynol:

- Busnes y Senedd a'r dechnoleg sydd ei hangen i gefnogi busnes seneddol hanfodol.
- Ystâd y Senedd - sicrhau mynediad a defnydd diogel a rheoledig o'r ystâd yn unol â rheoliadau COVID-19.
- Pobl y Senedd – cefnogi iechyd a llesiant, polisïau a hyfforddiant i staff y Comisiwn.
- Cyfathrebu ac Ymgysylltu - sicrhau bod anghenion Aelodau a staff y Comisiwn yn cael eu deall, ac y ceir trafodaethau rheolaidd ynghylch y cynlluniau ar gyfer dychwelyd i'r ystâd.
- Llywodraethu a Sicrwydd - sicrhau llywodraethu da wrth gydgysylltu rhaglenni, penderfyniadau a myfyrdodau rheolaidd.
- Dyfodol y Senedd – dysgu o'n profiadau a'n dealltwriaeth o gyfleoedd i gynllunio ar gyfer newidiadau tymor hwy.

2.2.2 Roedd y tasgau cychwynnol yn cynnwys gosod a chytuno â'r Comisiwn, yr egwyddorion a fyddai'n sail i gynlluniau, sef: Y cwestiynau oedd:

- Mae diogelwch o'r pwys mwyaf a bydd lefelau risg yn cael eu gostwng i gyn ised ag sy'n rhesymol ymarferol.
- Agor rhannau o’r ystâd, dim ond pan fo hynny’n angenrheidiol ac yn ddiogel, a dim ond am gyhyd ag sydd ei angen.
- Cadw’r niferoedd ar yr ystâd i isafswm rhesymol.
- Cefnogi iechyd a llesiant staff y Comisiwn.
- Paratoi a chynefino staff ac Aelodau ar gyfer dychwelyd i'r ystâd.
- Ymgysylltu a chyfathrebu â staff y Comisiwn, Aelodau a Staff Cymorth yr Aelodau drwyddi draw.

2.2.3 Roedd angen i'r rhaglen Dychwelyd i’r Ystâd fod yn hyblyg ac yn ymatebol i gynnal a llunio busnes rhithwir y Senedd sy'n esblygu. Yr unig ffordd o wneud hyn oedd dechrau cynllunio ar sail nifer o dybiaethau, gan gynnwys:

- Byddai angen i'r rhaglen baratoi senarios ar gyfer dychwelyd yn raddol i ystâd y Senedd, gan gynnwys y posibilrwydd o gynnal y Cyfarfod Llawn ar ffurf hybrid.
- Roeddem yn disgwyl busnes cynyddol a mwy amrywiol, yn enwedig o ddeddfwriaeth y Llywodraeth a chyfnod pontio’r UE yn ystod hydref 2020.

2.2.4 Defnyddiwyd y rhagdybiaethau hyn i fodelu senarios, blaenoriaethu gweithgareddau, profi ffyrdd o feddwl a'n galluogi i 'flaengynllunio' y penderfyniadau y byddai angen eu gwneud i danategu newidiadau.

2.2.5 Cafodd y grŵp Dychwelyd i’r Ystâd hwn ei ddisodli gan y grŵp Cydnerthedd a Monitro Covid (CRAM), a oedd yn benodol gyfrifol am fonitro newidiadau i Reoliadau COVID-19 sy'n effeithio ar y Comisiwn a chynghori'r Bwrdd Gweithredol, gan ddatblygu ac adolygu asesiadau risg a monitro data ar effaith y pandemig ar iechyd a llesiant y gweithlu.

2.2.6 Trwy gydol y pandemig fe wnaeth y Bwrdd Gweithredol gyfarfod o leiaf ddwywaith yr wythnos ar fore Llun a Gwener i drafod y datblygiadau diweddaraf ac ystyried y cyngor diweddaraf o ran iechyd y cyhoedd a rheoliadau Llywodraeth Cymru. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd y Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd hefyd yn un o’r gwahoddedigion sefydlog a allai roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Bwrdd am barhad busnes ac adborth o’i gyfarfodydd fforwm parhad busnes a gynhaliwyd gyda'r seneddau eraill ledled y DU, Canada a Seland Newydd yn wythnosol.

2.2.7 Roeddem mewn sefyllfa dda o ganlyniad i fframwaith llywodraethu cadarn a gwaith cynllunio diwygiedig ar gyfer parhad busnes, gan ein galluogi i ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan y pandemig. Gwnaethom gynnal safonau llywodraethu uchel drwy gydol yr amser, gyda gwaith i gydgysylltu gweithgarwch llywodraethu yn parhau heb darfu.

2.2.8 Parhaodd y gwaith o adolygu, monitro a rheoli risg yn barhaus ar lefelau corfforaethol, gweithredol ac ar lefel prosiectau. Gwnaethom flaenoriaethu cymorth i sicrhau ein bod yn parhau i gydymffurfio â rheolau llywodraethu gwybodaeth a chaffael; ac archwilio mewnol ac allanol. Roedd angen rhai newidiadau i'r cynllun archwilio mewnol gwreiddiol er mwyn gallu canolbwyntio ar sicrwydd amser real ynghylch newidiadau i weithdrefnau (ceir rhagor o fanylion am hyn yn adran Sicrwydd y datganiad hwn). Cynhaliwyd yr archwiliad o'r cyfrifon fel y cynlluniwyd ar gyfer datganiadau ariannol 2019-20, 2020-21 a 2021-22.

2.2.9 Mae'r holl benderfyniadau a wnaed i fynd i'r afael â risgiau a materion sy'n gysylltiedig â'n hymateb i COVID-19 wedi'u cofnodi. Mae'r log penderfyniadau hwn wedi profi ei werth fel cofnod ac mae'n cael ei ddefnyddio o hyd i nodi gwersi a dod o hyd i gasgliadau, ac i lywio ein trefniadau parhad busnes yn y dyfodol.

2.2.10 Mae Pwyllgor Cyllid y Senedd wedi parhau i ganolbwyntio'n fanwl ar gyllidebau'r Comisiwn a'r effaith ar y Comisiwn o ran arbedion a phwysau gwariant ychwanegol. Trwy gydol y cyfnod bu'r Comisiwn yn gohebu â'r Pwyllgor i'w hysbysu o'r effeithiau. **Llythyr at y Pwyllgor Cyllid**

2.2.11 Oherwydd gweithio o bell, roedd mwy o ddefnydd o gardiau caffael oherwydd weithiau roedd yn rhaid prynu eitemau'n gyflym. Rheolwyd y broses hon yn dda i raddau helaeth, er bod rhai materion wedi'u codi gan y tîm Cyllid ac roedd yn amlwg bod mwy o ddefnydd o wefannau fel Amazon yn ystod y pandemig. Tynnwyd sylw'r adran Gyllid, Caffael a Llywodraethu at hyn.

2.2.12 Roedd trefniadau ychwanegol a chynllunio helaeth hefyd yn effeithiol o ran rheoli darnau o waith ar wahân yr oedd angen dulliau gwahanol ar eu cyfer yn ystod y pandemig. Roedd y rhain yn cynnwys Etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021, gan gynnwys cyfnod diddymu byrrach, a gweithgareddau cysylltiedig i sicrhau proses bontio ddidrafferth i'r Chweched Senedd; ac etholiadau a gweithgarwch cynnar ail Senedd Ieuenctid Cymru.

2.2.13 Cafodd y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa o ran y pandemig ei chyflwyno'n ffurfiol ym mhob un o gyfarfodydd y Comisiwn a Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn.

2.2.14 Drwy gydol y cyfnod hwn gwnaeth y Comisiwn hefyd ystyried papurau manwl lle bu angen gwneud penderfyniadau megis: cynlluniau ar gyfer dychwelyd i'r ystâd; opsiynau ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd; a ffyrdd o weithio yn y dyfodol.

2.2.15 Gwelwyd bod y trefniadau parhad busnes a roddwyd ar waith i gynnal busnes y Senedd yn ystod blwyddyn gyntaf y pandemig yn effeithiol a daethant yn drefniadau arferol yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22, gyda rhai bellach yn nodwedd barhaol o'r trefniadau ar gyfer cyflawni busnes. Mae hyn yn cynnwys gweithio o bell, cyfarfodydd llawn a chyfarfodydd pwyllgor rhithwir a hybrid, a phleidleisio electronig.

2.2.16 Wrth i'r amodau newid ac wrth i'r Comisiwn baratoi ar gyfer dychwelyd i'r ystâd, llwyddodd y sefydliad i reoli ein ffordd allan o gyfyngiadau a rheoliadau COVID-19 (o ran patrymau desg diemwnt, cyfyngiadau capasiti ystafelloedd cyfarfod ac ati) heb lawer o broblem. Yn ystod y cyfnod hwn roedd ystod eang o safbwyntiau (yn adlewyrchu'r gymdeithas) ynghylch pa mor gyflym y dylai'r newidiadau/dad-gyfyngiadau hynny ddigwydd, a chyflawnwyd hyn drwy'r broses o adolygu a diweddaru'r Asesiad Risg Corfforaethol.

2.2.17 Yn ystod y cyfnod hwn o drawsnewid, roedd atebolrwydd am y materion a'r penderfyniadau sy'n gysylltiedig â'r cyfnod hwnnw weithiau'n anodd gan fod y sefyllfa'n newid yn barhaus. Cyfrifoldeb CRAM oedd gwneud argymhellion ar gyfer penderfyniadau a daeth yn angenrheidiol i rai materion gweithredol bach iawn gael eu huwchgyfeirio at y Bwrdd Gweithredol ac yna ymlaen i'r Comisiwn, a allai arwain at amserlenni estynedig ar brydiau. Roedd y rhain yn gyfnodau digynsail gydag elfennau o ddryswch a rheoliadau a chyngor iechyd cyhoeddus a oedd yn newid.

2.2.18 Arweiniodd yr amserlenni estynedig hynny, yn eu tro, at rai meysydd gwasanaeth yn mynd i'r afael â materion eu hunain (e.e. ynghylch ble roeddent yn eistedd). Mae nifer o resymau am y sefyllfa honno, a barodd ychydig fisoedd yn unig ac sydd wedi'i datrys ers hynny.

2.2.19 Yn ystod haf 2022, cadarnhaodd y Comisiwn ei fod bellach yn gweithredu model hybrid wrth symud ymlaen, gyda'r staff i fod yn y gwaith pan yr oedd ganddynt reswm i fod yn bresennol, a nodwyd y byddai hyn yn cyd-fynd yn dda â chynlluniau'r Comisiwn i sicrhau defnydd mwy effeithlon a chynaliadwy o'r ystâd. Yn dilyn hynny, wrth i ddigwyddiadau ac agweddau symud ymlaen, bu newid mewn safiad strategol, ac anogwyd mwy o bresenoldeb mewn swyddfeydd yn ddiweddarach yn 2022, yn unol â gofynion busnes ac i gyd-fynd ag anghenion yr Aelodau. Mae'r dull hwn bellach wedi'i hen sefydlu gyda phatrymau gwaith yn cyd-fynd ag anghenion y busnes ac ystyriaeth o lesiant unigolion a'r tîm lle mae defnydd cynyddol o gyfarfodydd tîm 'wyneb yn wyneb' achlysurol wedi dod yn nodwedd o nifer o gynlluniau llesiant mewn gwasanaethau ar draws y Comisiwn. Bydd angen asesu a rheoli effaith tueddiadau presenoldeb newydd y swyddfeydd ar gyfer y defnydd o'r ystâd yn y dyfodol.

2.2.20 Mae'r Comisiwn wedi manteisio ar gyfleoedd i weithio'n wahanol ac yn fwy hyblyg, a byddwn yn parhau i wneud hynny, gan gynnwys ffyrdd y gallem gefnogi Aelodau i wireddu manteision democrataidd gweithio hybrid. Mae ein myfyrdodau yn sgil gweithredu yn yr amgylchedd hwn bellach yn cael eu defnyddio i lywio adolygiad o ddull y Comisiwn wrth ddatblygu cynlluniau parhad busnes ac maent yn rhan o'n dysgu ehangach o'r profiad o ymateb i'r pandemig. Mae adolygiad sicrwydd archwilio mewnol yn cael ei gynnal ar hyn o bryd i helpu i lywio syniadau yn y dyfodol yn y maes hwn.

2.2.21 Ym mis Mai 2021, cymeradwyodd y Bwrdd Gweithredol adroddiad o'r enw "Ffyrdd o weithio yn y dyfodol: Gwersi a chyfleoedd" (**Adroddiad Ffyrdd o**

Weithio yn y Dyfodol). Fe'i cymeradwywyd wedyn gan y Comisiwn a chafodd ei gyhoeddi'n fewnol. Llywiwyd yr adroddiad cynhwysfawr (118 o dudalennau) gan gyfres o weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu eang, trafodaethau, arolygon a gweithdai. Mae'n ymgorffori myfyrdodau manwl ar wersi a ddysgwyd yn ystod blwyddyn gyntaf y pandemig ac yn tynnu ar ddata allweddol a gwybodaeth asesu.

2.2.22 Mae'r cyfle i ddatblygu model gweithio hyblyg, ymatebol a chynaliadwy newydd, yn cael ei weithredu fel rhan o'r strategaeth "Ffyrdd o Weithio" newydd gyda strwythur llywodraethu rhaglen ffurfiol. Bydd hyn hefyd yn ymgorffori ein canfyddiadau o ail Adolygiad Capasiti y Comisiwn a gynhaliwyd ar ddechrau'r Chweched Senedd. Ochr yn ochr â hyn, comisiynodd a goruchwyliodd Cyfarwyddwr Busnes y Senedd adolygiad gweithredol mewnol o'r Gyfarwyddiaeth Fusnes. Nod y gwaith hwn oedd gweithio tuag at fodel cefnogi busnes cryfach er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaethau seneddol a chymorth busnes rhagorol sy'n gynaliadwy, yn hyblyg, yn ymatebol ac yn arbenigol. Wrth baratoi ar gyfer y Chweched Senedd, adolygwyd strwythurau gwasanaeth y Cyfarwyddiaethau, crëwyd rolau newydd a chychwynnwyd ymarfer cylchdroi staff i feithrin gallu, osgoi dibynnu ar unigolion allweddol, mynd i'r afael â chyfyngiadau gwydnwch a phwyntiau methiant critigol, a rhoi trefniadau cynllunio olyniaeth ar waith

2.2.23 Rydym wedi cynnal safonau llywodraethu uchel drwy gydol y cyfnod, ac mae gwaith i gydgysylltu gweithgarwch llywodraethu a sicrwydd wedi parhau heb darfu. Adlewyrchwyd hyn yn y datganiadau sicrwydd gan y Penaethiaid Gwasanaethau a Chyfarwyddwyr sydd wedi llywio ein datganiadau llywodraethu yn ystod y tair blynedd diwethaf.

# Beth wnaethom ni?

- Addasu ein gweithdrefnau llywodraethu er mwyn ymateb i'r sefyllfa newidiol a sicrhau bod y gwneuthurwyr penderfyniadau, y Comisiwn, y Pwyllgor Busnes a'r Bwrdd Gweithredol priodol bob amser yn cael y wybodaeth briodol i wneud penderfyniadau gwybodus.
- Creu'r grŵp Dychwelyd i'r Ystâd ac wedyn CRAM i sicrhau bod y bobl gywir yn rhan o'r sgyrsiau ac y gellid gweithio ar benderfyniadau arfaethedig mewn ffordd ystwyth cyn trosglwyddo'r penderfyniadau sydd angen eu cadarnhau i'r corff priodol sy'n gwneud penderfyniadau.
- Cynnal log penderfyniadau o'r holl benderfyniadau a wnaed yn ystod y pandemig.
- Rhwydweithio â seneddau eraill i sicrhau y gallem ddysgu o'n gilydd.
- Ymgorffori asesiadau risg ar draws y sefydliad wrth gynllunio ar gyfer dychwelyd yn raddol i'r ystâd gan ystyried iechyd a diogelwch a rheoliadau Llywodraeth Cymru.

- Gweithredu offeryn asesu bach o'r effaith ar ddiogelu data ar gyfer cynnal asesiad risg o weithgareddau'r Comisiwn megis recriwtio, i sicrhau bod y Comisiwn yn gallu cydbwyso ei gyfrifoldebau yn unol â'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol i ddarparu gwasanaethau dwyieithog yn erbyn y risgiau seiber o gynnal busnes preifat y Comisiwn ar blatfform Zoom.
- Mynd i'r afael yn barhaus â heriau ffyrdd newydd o weithio ac ystyried anghenion busnes a llesiant staff wrth bontio i weithle mwy ystwyth yn y dyfodol.
- Creu rhaglen Ffyrdd o Weithio i fwrw ymlaen ag ymateb y Comisiwn yn y byd ar ôl y pandemig.

# Beth y gwnaethom ei ddysgu?

- Llwyddodd y sefydliad i weithredu ar raddfa ddigynsail i ymateb i ddigwyddiadau arwyddocaol a gellir cyflwyno strwythurau cyflawni gwahanol ar fyr rybudd er mwyn cwtogi'r amser a gymerir i wneud penderfyniadau. Rydym wedi cymryd hyn i ystyriaeth ac wedi adfer CRAM i helpu i ddatblygu syniadau o ran sut i gynllunio parhad busnes yn y dyfodol.
- Dangosodd y pandemig bwysigrwydd system rheoli risg ddeinamig a ddylai gael ei hadolygu a'i herio'n rheolaidd, ac mae angen i system o'r fath ymgorffori gwaith sganio'r gorwel a chynllunio ar gyfer senarios ynddi. Mae'r agweddau hyn wedi'u hymgorffori yn ein proses o reoli risg gydag adolygiadau risg chwarterol a arweinir gan y Cyfarwyddwr, adolygiad y Bwrdd Gweithredol a chyfleoedd i sganio'r gorwel yn flynyddol. Yn y dyfodol, bydd eglurder ynghylch ein parodrwydd i gymryd risg a'n goddefgarwch ohono hefyd yn sail i ddewis pa gyfaddawdau y dylid eu gwneud mewn unrhyw sefyllfaoedd brys yn y dyfodol. Bydd yr Adolygiad o Effeithiolrwydd presennol gan y Bwrdd Gweithredol yn ystyried y rôl y gallai'r Bwrdd a'r tîm Arwain ei chwarae wrth symud ymlaen o ran rheoli risg ac yn arbennig y rhyngberthynas â rheoli risg yn y ddwy raglen fawr – Ffyrdd o Weithio a Diwygio'r Senedd. Mae darn mwy manwl o waith ar Lywodraethu Prosiectau a Rhaglenni wedi'i drefnu ar gyfer cynllun archwilio mewnol 2023-24 a fydd yn cynnwys adolygiad o reoli risg a materion.
- Bydd datblygu a bwrw ymlaen â dulliau o gynllunio parhad busnes hefyd yn bwysig wrth i'r Comisiwn gynllunio ar gyfer y dyfodol. Yn benodol, cydnabod y rôl y gall technoleg ei chwarae yn awr wrth adolygu syniadau parhad busnes traddodiadol, a nodi canlyniadau argyfyngau mawr, datblygu llawlyfrau argyfyngau neu gynllunio senarios ar gyfer yr effeithiau mwyaf arwyddocaol. Mae archwiliad mewnol o barhad busnes

ar y gweill ar hyn o bryd i helpu i nodi sut rydym yn sicrhau bod ein cynlluniau'n parhau i fod mor effeithiol â phosibl ac yn unol ag arfer da.

- Pwysigrwydd ail-adolygu'r defnydd o gardiau caffael ar draws y sefydliad. Yn ystod y pandemig cyhoeddodd y Pennaeth Caffael ganllawiau pellach i atgoffa pawb bod gennym restr gymeradwy o gyflenwyr y Comisiwn eisoes ar waith ar gyfer eitemau fel deunydd swyddfa ac ni ddylai cydweithwyr fod yn defnyddio Amazon fel yr opsiwn diofyn er hwylustod. Mae'r adran gyllid a chaffael yn monitro gwariant yn rheolaidd ac mae archwiliad mewnol wedi'i gynllunio yn y maes hwn yn ystod 2023-24 i ychwanegu haen ychwanegol o sicrwydd.

- Fel y rhagwelwyd ar ddechrau'r pandemig, bu'r broses o drefnu ar gyfer dychweliad y staff i'r ystâd yn llawer mwy cymhleth a heriol na symud staff yn gyflym ar ddechrau'r pandemig. Gwnaeth hyn wneud y broses o wneud penderfyniadau yn fwy cymhleth ac arweiniodd at rai materion gweithredol yn cael eu huwchgyfeirio i'r haenau uchaf o lywodraethu a rhywfaint o anghysondeb ar yr un pryd rhwng meysydd gwasanaeth. Nid oedd hyn yn unigryw i'r Comisiwn wrth i sefydliadau ym mhobman fynd i'r afael â'r heriau hyn. Mae cyfleoedd i'r Comisiwn fyfyrio ar y cyfnod hwn o ran y dull o wneud penderfyniadau strategol a'r safbwynt corfforaethol ar ffyrdd o weithio sydd bellach wedi ymwreiddio'n dda o fewn gwasanaethau ledled y Comisiwn sy'n addasu arferion gwaith yn unol ag anghenion y busnes a llesiant staff. Bydd arferion gwaith yn parhau i esblygu wrth i'r ddwy raglen strategol gael eu datblygu.

- Mae'r byd ar ôl y pandemig yn un lle mae angen i bob sefydliad gydnabod yn gynyddol bwysigrwydd materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu yn eu hystyriaethau strategol. Nid yw'r Comisiwn yn wahanol ac mae'n canolbwyntio'n fanwl ar faterion o'r fath, gan gynnwys sicrhau bod y materion hyn yn cael eu codi gyda'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg gyda thrafodaethau ar strategaeth datgarboneiddio'r Comisiwn a chyfranogiad mewn mentrau fel Cynllun Gwresogi Ardal Bae Caerdydd.

- Mae tryloywder ac ymddiriedaeth y cyhoedd yn parhau i fod yn gysyniadau allweddol i'r Comisiwn felly, roedd dogfennu penderfyniadau a gwersi a ddysgwyd wrth i'r digwyddiadau ddatblygu yn rhoi cyfleoedd i'r Comisiwn fyfyrio a bydd yn helpu i gryfhau'r ymateb parhad busnes a gwydnwch sefydliadol yn y dyfodol. Gwnaeth y mesurau hyn helpu i wella tryloywder a helpu darparwyr sicrwydd yn y llinell gyntaf, yr ail a'r drydedd linell i roi sicrwydd a/neu nodi unrhyw achosion sylfaenol os bydd problemau'n codi.

## 2.3 Llesiant Staff

2.3.1 Roedd llesiant staff y Comisiwn wrth wraidd dull y Comisiwn o ymdrin â'r pandemig, p'un a oedd pobl yn gweithio yn yr adeilad neu o bell.

2.3.2 Gwnaethom weithredu dull pwyllog yn barhaus i gadw holl ddefnyddwyr yr ystâd yn ddiogel wrth weithio ar yr ystâd, gan addasu i ddeddfwriaeth y Llywodraeth a negeseuon iechyd cyhoeddus, tra'n cefnogi busnes y Senedd i barhau. Mae ein ffocws ar lesiant a chynhwysiant, gan sicrhau bod holl ddefnyddwyr yr adeilad yn teimlo'r un mor ddiogel, wedi annog pawb sy'n defnyddio'r adeilad i ystyried anghenion ei gilydd.

2.3.3 Mae'r Comisiwn wedi cefnogi pawb sy'n defnyddio'r adeilad i ddilyn y canllawiau diweddaraf ar ddefnyddio'r ystâd yn ddiogel, gan gynnwys Profion Llif Unffordd cyn dod i'r ystâd, gwisgo masgiau wrth fynd o gwmpas, a lefelau wedi'u hadolygu o ran presenoldeb yn yr adeilad. Cefnogodd gweithdrefn Monitro ac Olrhain fewnol y Senedd barhad busnes, ac roedd system archebu desg newydd yn sicrhau pellter corfforol ym mhob rhan o'r ystâd, a chyfleoedd i ailgynllunio gweithle iach sy'n para'n hir gyfer y dyfodol.

2.3.4 Gweithiodd ein Timau Adnoddau Dynol, Ystadau a TGCh yn agos i sicrhau bod gan staff sy'n gweithio o bell, naill ai weithiau neu bob amser, offer sgrin arddangos priodol, gan gynnwys unrhyw addasiadau rhesymol a gofynion ergonomig.

2.3.5 Gan y bydd gweithio ystwyth yn nodwedd barhaus o'n ffyrdd o weithio yn y dyfodol, rydym wedi caffael system DSE ar-lein a fydd yn parhau i gefnogi'r rhai sy'n gweithio o bell neu ar yr ystâd. Mae cymorth llesiant wedi cael ei ddarparu'n rheolaidd i bawb, boed hynny ar yr ystâd neu o bell, gan ganolbwyntio ar lesiant corfforol a meddyliol. Roedd cynllunio cadarn, sgyrsiau gwybodus ac asesiadau risg unigol wrth wraidd y broses o ddychwelyd i'r ystâd, a bydd yn parhau i lywio ffyrdd cynhwysol o weithio yn y dyfodol.

2.3.6 Mae ein Rhwydweithiau Cydraddoldeb yn y Gweithle, ac yn enwedig y rhwydwaith MINDFUL, wedi parhau i gynnal sesiynau galw heibio rhithwir, gan greu lle ar gyfer sgwrsio a chyngor cyffredinol i bawb yn ôl yr angen. Gan gydnabod y nifer fawr o bobl sy'n defnyddio'r ystâd sydd â chyfrifoldebau gofalu, rydym wedi parhau i ddarparu cymorth y gellir ei addasu yn y maes hwn, gan sicrhau y gall ein ffyrdd ystwyth o weithio sy'n dod i'r amlwg gyflawni busnes y Senedd, a chefnogi staff y Comisiwn, yr Aelodau a'u staff i gefnogi eu hymrwymiadau gofalu.

2.3.7 Mae'r pandemig hefyd wedi dangos sut y gall digwyddiadau arwyddocaol fel y rhain gael effeithiau gwahanol ar wahanol grwpiau o staff yn seiliedig ar amrywiaeth ddiwylliannol ac ethnigrwydd. Gan gydnabod bod nifer o'r bobl sy'n defnyddio ein hystadau yn byw ar eu pen eu hunain neu mewn amgylchiadau anodd, rydym wedi canolbwyntio ein hymdrechion ar gynyddu cysylltedd. Gwnaethom roi cymorth i unrhyw un a oedd yn profi cam-drin domestig yn ystod y cyfnod clo, gan gynnwys lle diogel i weithio, a chyflwyno cyfleuster benthyca cyfrinachol i'r rhai mewn angen. Mae arolygon pwls llesiant a pharhad busnes rheolaidd, cyfathrebu a chyfarfodydd i'r holl staff wedi sicrhau ein bod wedi teilwra ein dull i ddiwallu anghenion a lleddfu pryderon yn effeithiol. Yn yr un

modd, mae'r mesurau hyn wedi llywio blaenoriaethu a'n gwydnwch o ran parhad busnes, gan roi mewnwelediadau ac arferion newydd i ni ar gyfer y dyfodol.

2.3.8 Yn ystod y cyfnod hwn, parhaodd y Comisiwn i gyflawni lefelau uchel o ymgysylltu â staff gan gofnodi sgoriau lefel ymgysylltu o 77 y cant yn 2020 a 75 y cant yn 2021 a 2022. Mae hyn yn adlewyrchu'r cyfraddau ymateb i'r Arolwg Pobl ac roedd lefelau ymgysylltu yn sylweddol uwch na'r gwasanaeth sifil.

2.3.9 Ar y cychwyn, cafodd trefniadau priodol eu rhoi ar waith i amddiffyn pobl sy'n gweithio ar y safle, gan gynnwys mwy o lanhau mewn mannau risg uchel/cyswllt uchel, cyflwyno hylif diheintio dwylo a chadachau ym mhob mynedfa i'r adeilad, cyflwyno systemau unffordd a chyfundrefnau cadw pellter cymdeithasol o fewn adeiladau a defnyddio'r teclyn archebu ac olrhain niferoedd ar y safle electronig i sicrhau bod y nifer sy'n cael bod yn yr adeilad yn cael ei reoli'n effeithiol.

2.3.10 Yn ystod y cyfnodau clo, cydnabuwyd y risgiau o staff yn gweithio gartref o ran ynysu, iechyd meddwl a chorfforol a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Darparwyd canllawiau i staff, fel sesiynau hyfforddi a llesiant staff a oedd yn cynnwys syniadau iechyd meddwl a chorfforol; canllawiau gan gynnwys ioga swyddfa a fideos ymarfer corff; lincs i adnoddau MIND a phecyn cymorth iechyd meddwl y Senedd; cynghorion ar gyfer cynnal iechyd meddwl wrth deimlo'n ynysig; yn ogystal â darparu cymorth iechyd galwedigaethol os oes angen.

2.3.11 Ymysg y cymorth ehangach roedd gwybodaeth i staff sy'n gweithio gartref gyda phlant, cymorth profedigaeth a'r gallu i staff weithio o'r swyddfa lle nad oedd yn bosibl iddynt weithio gartref am resymau personol, technegol neu oherwydd lleoliad.

2.3.12 Gwnaed newidiadau dros dro i'n polisïau pobl i sicrhau bod staff yn cael digon o gefnogaeth yn ystod yr amseroedd anodd hyn. Aeth y Comisiwn ati i annog cydbwysedd o weithio hyblyg gan ganolbwyntio ar ganlyniadau a llesiant, yn hytrach nag oriau a gwaith yn unig. Gwnaeth hyn alluogi staff i ddod o hyd i'w rhythm eu hunain o ran gweithio, cyfrifoldebau gofalu ac addysg gartref.

## Beth wnaethom ni?

- Gweithredu gweithio gartref yn gyflym ymhlith timau yn ôl Cynlluniau Parhad Busnes tra'n ystyried anghenion penodol y digwyddiad.
- Dechrau newidiadau polisi i gefnogi mwy o weithio gartref.
- Cynnal sesiynau hyfforddi staff, fideos cyfarwyddiadol a chanllawiau dwyieithog ar ddefnyddio technoleg gweithio o bell.
- Cafodd gwybodaeth i staff am iechyd a diogelwch, llesiant meddyliol ac awgrymiadau ar weithio'n effeithiol yn y cartref ei rhannu'n eang.

- Darparu offer swyddfa, lle bo angen, i gefnogi staff gartref.
- Cyflwyno Microsoft Teams yn gyflym i alluogi negeseuon gwib, galwadau llais, galwadau fideo a rhannu cynnwys rhwng timau sy'n gweithio o bell.
- Cyfarfodydd cadw mewn cysylltiad tîm rheolaidd a drefnwyd gan ddefnyddio technoleg.
- Gwnaethom barhau â negeseuon corfforaethol gan uwch arweinwyr trwy fwletin e-bost ac erthygl ar y fewnrwyd yn ogystal ag ehangu i gwmpasu negeseuon fideo wedi'u recordio a digwyddiadau byw ar gyfer cwestiynau ac atebion.
- Diweddarwyd y cynlluniau parhad busnes yn y cyfnod cyn y pandemig i sicrhau bod yr holl gyfathrebu'n gyfredol ac y gellid cael gafael ar yr holl staff ar ryw ffurf neu'i gilydd.

## Beth y gwnaethom ei ddysgu?

- Mae'r holl bwnc o ran llesiant pobl wedi cynyddu'n sylweddol drwy gydol cyfnod pandemig ar gyfer pob sefydliad. Fel sefydliad sy'n canolbwyntio ar bobl, mae'r Comisiwn wedi profi ei fod mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â materion yn y maes hwn. Mae arolygon pwls rheolaidd gyda staff yn ystod cyfnod y pandemig yn parhau i gael eu cynnal. Mae'r berthynas iach rhwng rheolwyr a'r undebau llafur yn parhau yng nghyfarfodydd y Fforwm Partneriaeth ac mae'r sefydliad yn rhoi gwerth sylweddol ar ymgysylltu â rhwydweithiau staff Comisiwn y Senedd. Mae gwaith pellach wedi'i gynllunio rhwng y tîm Amrywiaeth a Chynhwysiant a'r tîm Llywodraethu i archwilio'n fwy llawn sut y gall y rhwydweithiau hyn barhau i esblygu, ychwanegu gwerth, a sut y gallant ffurfio rhan o'r fframwaith llywodraethu cyffredinol.
- Mae pwysigrwydd cydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth yn rhywbeth sy'n ffocws gwirioneddol i'r Comisiwn ac sy'n denu craffu cynyddol gan staff ac yn wir y grŵp rhanddeiliaid ehangach. Mae Cynghorydd Annibynnol newydd wedi'i benodi i arwain ar gynhwysiant ac amrywiaeth ar gyfer y Comisiwn ac, un o'r blaenoriaethau yn ein Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd yw sefydlu Bwrdd Amrywiaeth a Chynhwysiant i ddwyn ynghyd yr holl wahanol bobl sy'n aml yn cael yr un sgwrs ynglŷn â'r un peth ond mewn cyd-destunau gwahanol. Y syniad yw dod â chadeiryddion rhwydwaith, hyrwyddwyr, timau dysgu a datblygu sefydliadol, amrywiaeth a chynhwysiant, Undebau Llafur a Chynghorwyr Annibynnol ynghyd i oruchwylio'r broses o weithredu'r Strategaeth a bod yn fforwm i ymdrin â materion traws-sefydliadol. Cylch gorchwyl arfaethedig y grŵp fyddai rhoi sicrwydd

ychwanegol i'r Bwrdd Gweithredol a sicrhau dull effeithlon a chydgysylltiedig.

- Roedd y ffaith bod gweithio gartref yn “orfodol” wedi annog arloesedd a dyfeisgarwch ymhlith staff ac rydym yn parhau i ddefnyddio dull hyblyg o weithio rhwng y cartref a'r ystâd fesul gwasanaeth yn seiliedig ar anghenion busnes.

- Mae ein systemau TG yn gallu ymdopi â nifer sylweddol o bobl yn mewngofnodi ar yr un pryd o bell ac ystyriwyd bod hyn yn risg posibl cyn y pandemig.

- Mae mwy o weithio gartref yn golygu risgiau gwahanol i'r Comisiwn a'n staff - mae'r Comisiwn wedi cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod asesiadau priodol o Gyfarpar Sgrin Arddangos (DSE) ar waith. O ganlyniad i hyn mae trefniant newydd wedi'i sefydlu i sicrhau y gellir cynnal gwiriadau DSE o bell a sicrhau bod y Comisiwn yn cyflawni ei rwymedigaethau iechyd a diogelwch i staff.

- Roedd risg y byddai cynhyrchiant staff nad oedd ganddynt yr offer i weithio gartref ac na allent fynd i’w gweithle yn gwaethygu ac efallai y byddant hefyd yn teimlo’n ynysig. Fodd bynnag, roedd adleoli staff o’r adran Ymgysylltu a Diogelwch i rannau eraill o'r sefydliad wedi helpu i liniaru yn erbyn hyn yn ogystal â'r buddsoddiad mewn hyfforddiant ar-lein a gweithgareddau eraill.

- Roedd cyfathrebu cyson ac amserol ar draws y sefydliad yn hanfodol i sicrhau ymateb unedig ac effeithiol, felly, i ddigwyddiad mor arwyddocaol. Mae cyfathrebu mewnol yn parhau i fod yn ystyriaeth bwysig i'r Comisiwn a bydd yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r rhaglen Ffyrdd o Weithio.

- Yn anochel, roedd llawer o'n staff yn colli'r rhyngweithio cymdeithasol a geir yn y gweithle ac er mwyn sicrhau nad oeddent yn teimlo'n ynysig, daeth cyfarfodydd tîm rhithwir rheolaidd yn opsiwn amgen defnyddiol. Arweiniodd cyfarfodydd tîm aml at wella morâl, ymdeimlad o bwrpas ac ysbryd o gydweithredu. Mae’r gwersi a ddysgwyd o’r cyfnod hwn yn parhau gyda’r tîm Adnoddau Dynol yn gweithio gyda Phenaethiaid Gwasanaethau i ddatblygu cynlluniau llesiant ar gyfer pob maes ac mae ystyried y dulliau gweithio a’r cydbwysedd rhwng gweithio wyneb yn wyneb, gwaith rhithwir a gwaith hybrid yn rhan o’r cynlluniau hyn.

- Fel estyniad i gyfarfodydd tîm - roedd cynnal cyfarfodydd ar gyfer yr holl staff ar-lein hefyd yn ‘arf’ pwysig i ddod â phawb at ei gilydd ac yn wir fe wnaeth hynny waredu ar rwystrau i’r rhai nad ydynt yn rhan o garfan staff Bae Caerdydd megis cydweithwyr a leolir yng ngogledd Cymru. Mae cyfarfodydd rhithwir a hybrid ar gyfer digwyddiadau staff bellach yn parhau yn y byd ar ôl COVID-19, gyda lefelau llawer uwch o

bresenoldeb na'r digwyddiadau 'wyneb yn wyneb' a oedd ar waith cyn COVID-19.

DIWEDD

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**Y Bil Gweithgarwch Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor)**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, a chaniateir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron Senedd Cymru[1] os bydd Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru neu'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

2. Cyflwynwyd y Bil Gweithgarwch Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor) ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 19 Mehefin. Mae'r Bil ar gael yn: [Economic Activity of Public Bodies (Overseas Matters) Bill (parliament.uk)]

3. Ar 27 Mehefin ysgrifennais at y Llywydd i egluro na fyddai'r Bil hwn yn cael ei osod o fewn yr amserlenni arferol oherwydd cwmpas eang y Bil ac, i sicrhau bod y Pwyllgorau'n derbyn LCM cynhwysfawr i'w ystyried, y byddai oedi.

**Amcanion Polisi**

4. Mae Llywodraeth y DU wedi datgan mai bwriad y Bil yw *"atal cyrff cyhoeddus, pan fyddant yn gwneud penderfyniadau ynghylch caffael a buddsoddi, rhag ymdrin â gwlad neu diriogaeth tarddiad neu ystyriaethau tiriogaethol eraill mewn ffordd sy'n dangos anghymeradwyaeth wleidyddol neu foesol ynghylch gwlad dramor."* Mae hefyd yn cadarnhau y byddai *"hefyd yn atal cyrff cyhoeddus rhag gwneud datganiadau'n dweud y byddent wedi gwneud hynny pe bai'n gyfreithlon".*

5. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi dweud mai amcan polisi'r Bil yw sicrhau bod y DU yn ymdrin â pholisi tramor mewn ffordd gyson, drwy atal cyrff cyhoeddus rhag dilyn eu hagenda polisi tramor eu hun, yn groes i bolisi Llywodraeth y DU. Mae Llywodraeth y DU yn dweud mai nod y Bil hwn yw galluogi Llywodraeth y DU i gyflawni ei hymrwymiadau i sicrhau bod y DU yn siarad â llais cydlynol yn rhyngwladol, drwy sicrhau bod penderfyniadau cyrff cyhoeddus ynghylch caffael a buddsoddi'n cyd-fynd â pholisi Llywodraeth y DU.

**Crynodeb o'r Bil**

6. Noddir y Bil gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau.

---

[1] Nodwch, yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, y byddwn yn cyfeirio at y ddeddfwrfa yng Nghymru fel "Senedd Cymru" y tro cyntaf, ac wedyn "y Senedd", oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall.

7. Dylid nodi nad yw Llywodraeth Cymru wedi cyfranogi yn y gwaith o ddatblygu'r Bil hwn.

8. Dywedir bod nodau'r Bil yn cynnwys y canlynol:

    a) Atal cyrff cyhoeddus, pan fyddant yn gwneud penderfyniadau ynghylch caffael a buddsoddi, rhag ymdrin â gwlad neu diriogaeth tarddiad neu ystyriaethau tiriogaethol eraill mewn ffordd sy'n dangos anghymeradwyaeth wleidyddol neu foesol ynghylch gwlad dramor. Mae'n bosibl y byddai boicots neu waredu o'r fath (lleihau buddsoddiadau presennol) gan gyrff cyhoeddus yn arwain at ymchwiliadau a dirwyon o dan y ddeddfwriaeth.

    b) Atal cynghorau a chyrff eraill sy'n derbyn arian cyhoeddus rhag dilyn eu hagendâu polisi tramor eu hunain. Mae Llywodraeth y DU wedi dweud bod ymgyrchoedd mewn prifysgolion ac awdurdodau lleol ynghylch benderfyniadau buddsoddi yn ymwneud â rhai gwledydd yn arwain at densiwn yn y gymuned.

    c) Mae Llywodraeth y DU wedi dweud nad yw'r Bil yn atal cyrff cyhoeddus rhag cydymffurfio â sancsiynau, embargos a chyfyngiadau cyfreithiol ffurfiol Llywodraeth y DU.

9. Mae'r Bil yn cynnwys 17 cymal ac un atodlen sy'n mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â boicots, gwarediadau a sancsiynau a roddir ar waith gan gyrff cyhoeddus. Mae crynodeb byr isod:

    a) Mae Cymal 1 o'r Bil yn amlinellu gwaharddiad sy'n atal awdurdodau lleol, wrth wneud penderfyniadau ynghylch caffael neu fuddsoddi, rhag ymdrin â gwlad neu diriogaeth mewn ffordd sy'n dangos anghymeradwyaeth foesol neu wleidyddol ynghylch y ffordd mae'r wlad neu'r diriogaeth honno'n ymddwyn. Mae'n dweud yn y Nodiadau Esboniadol fod y cymal hwn wedi'i gynllunio i gynnwys cyfranogiad agored mewn ymgyrchoedd boicotio neu waredu, a ffyrdd mwy cynnil o ymdrin â gweledydd unigol a allai arwain at ganlyniadau tebyg.

    b) Mae Cymal 2 yn amlinellu'r penderfyniadau ynghylch caffael a buddsoddi y mae'r gwaharddiad yng Nghymal 1 yn berthnasol iddynt, yn ogystal â diffiniadau o "benderfyniad caffael", "penderfyniad buddsoddi" ac "ased".

    c) Mae Cymal 3 yn nodi bod eithriadau i'r gwaharddiad yng Nghymal 1 yn cael eu hamlinellu yn yr Atodlen. Mae Cymal 3 hefyd yn cynnwys pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol newid yr Atodlen.

    d) Mae Cymal 4 yn gwahardd cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Gymal 1, wrth wneud penderfyniadau ynghylch caffael neu fuddsoddi, rhag cyhoeddi datganiad yn dweud eu bod yn bwriadu

ymdrin ag ystyriaethau tiriogaethol mewn ffordd sy'n awgrymu anghymeradwyaeth foesol neu wleidyddol ynghylch y ffordd mae gwlad dramor yn ymddwyn. Mae'r cymal hefyd yn gwahardd cyrff o'r fath rhag cyhoeddi datganiadau sy'n nodi y byddent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath pe bai'n gyfreithiol iddynt wneud hynny. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn egluro bod hyn yn atal cyrff cyhoeddus rhag dweud eu bod o blaid boicot neu ymgyrch waredu o'r fath.

e) Yn ogystal â chynnwys darpariaeth benodol ynglŷn â deddfwriaeth gaffael a phensiynau, mae'r Bil hefyd yn cynnwys cyfundrefn orfodi a gallu i'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidog Swyddfa'r Cabinet wneud rheoliadau o dan rai amgylchiadau.

f) Mae Cymalau 5–11 yn ymdrin â gorfodi'r rhwymedigaethau.

g) Mae Cymal 12 yn darparu bod y gwaharddiad yng Nghymal 1 yn berthnasol i benderfyniad ynghylch cronfa fuddsoddi a wneir gan reolwr cynllun llywodraeth leol a ariennir, ac mae Cymal 13 yn ymdrin â'r pwerau gorfodi mewn perthynas â phenderfyniad o fewn Cymal 12.

h) Mae cymalau 14–16 yn ymdrin â darpariaethau atodol a darpariaethau cyffredinol. Mae Cymal 14 yn cymhwyso Cymal 1 o'r Bil i ddarpariaethau'r Bil Caffael ac yn gwneud darpariaeth ynghylch y ffordd y dylai'r ddau ddarn o ddeddfwriaeth weithredu gyda'i gilydd. Mae Cymal 15 yn gwneud diwygiadau cysylltiedig i'r ddeddfwriaeth ar gyfyngiadau ar gontractau llywodraeth leol. Mae Cymal 16 yn ymdrin â rheoliadau a wneir o dan y Bil.

i) Mae Cymal 17 yn amlinellu rhychwant, cymhwyso, cychwyn a theitl byr y Bil.

**Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer**

10. Rwyf o'r farn bod angen cydsyniad Senedd Cymru ar gyfer y cymalau a nodir isod, yn gymaint ag y maent yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig:

<u>Cymal 1</u>

11. Mae Cymal 1(2) yn darparu, mewn perthynas â phenderfyniadau y bydd Cymal 1 yn berthnasol iddynt, na ddylai'r sawl sy'n gwneud penderfyniad ystyried tiriogaeth mewn ffordd y byddai'n peri i rywun sy'n edrych ar y broses benderfynu ddod i'r casgliad yn rhesymol bod anghymeradwyaeth wleidyddol neu foesol ynghylch "ymddygiad gwlad dramor" wedi dylanwadu ar y penderfyniad.

12. Mae hefyd yn dweud (yng Nghymal 1(7)) bod yr anghymeradwyaeth y cyfeirir ati uchod yn golygu anghymeradwyaeth ar ran (a) y sawl sy'n gwneud y penderfyniad; neu (b) unrhyw berson sy'n ceisio perswadio'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad i ymddwyn mewn ffordd benodol – ac mewn achos lle nad yw'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad yn unigolyn, mae'r cyfeiriad at y sawl sy'n gwneud y penderfyniad yn cynnwys unigolion sydd, yn ymarferol, yn gwneud y penderfyniad ar ran y sawl sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad.

13. Cadarnheir bod eithriadau i'r uchod fel sydd yng Nghymal 3 – mae'r darpariaethau hyn yn cael eu crynhoi ymhellach isod.

14. Ein barn ni yw bod Cymal 1 yn ymwneud â materion datganoledig gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) y canlynol:

    a) Datblygu Economaidd – Gellid dadlau bod y darpariaethau yng Nghymal 1 yn ymwneud â datblygu economaidd, am eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar benderfyniadau'r endidau hynny sydd o fewn cylch gwaith y Bil ynghylch caffael a buddsoddi.

    b) Caffael – Mae Cymal 1 yn berthnasol i benderfyniad ynghylch caffael a ddiffinnir yng Nghymal 2. Ystyrir bod caffael o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

    c) Awdurdodau Datganoledig Cymru – O ystyried bod y darpariaethau yng Nghymal 1 yn berthnasol i endidau o fewn cylch gwaith adran 6 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 (gweler Cymal 2 isod), mae'n debygol y bydd y darpariaethau yng Nghymal 2 yn effeithio ar y rhan fwyaf o Awdurdodau Datganoledig Cymru (os nad pob un ohonynt) pan fyddant yn gwneud penderfyniadau ynghylch buddsoddi. Gellid dadlau hefyd y bydd y darpariaethau'n effeithio ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru mewn perthynas â chyrff o'r fath.

15. Rydym o'r farn bod Cymal 1 hefyd yn effeithio ar swyddogaethau gweithrediaeth Gweinidogion Cymru, ac rydym yn credu y bydd yn ofynnol iddynt gydymffurfio â Chymal 1 wrth iddynt arfer eu swyddogaethau eu hunain fel sy'n berthnasol.

Cymal 2

16. Mae Cymal 2 yn amlinellu'r penderfyniadau ynghylch caffael a buddsoddi y mae'r gwaharddiad yng Nghymal 1 yn berthnasol iddynt, yn ogystal â diffiniadau o "benderfyniad caffael", "penderfyniad buddsoddi" ac "ased". Felly rwyf wedi cymhwyso'r un sail resymegol ag ar gyfer Cymal 1 dros gynnwys darpariaethau'r cymal hwn yn yr LCM hwn.

Cymal 3

17. Cymal 3 (ar wahân i ran 3(3)(b) (sy'n ymwneud â Gweinidogion yr Alban), 3(3)(d) (sy'n ymwneud ag Adran yng Ngogledd Iwerddon, 3(3)(f) (sy'n

ymwneud â chyngor dosbarth yng Ngogledd Iwerddon a 3(3)(g)). Mae Cymal 3(1) yn cyfeirio at yr Atodlen sy'n gwneud eithriadau i weithredu'r gwaharddiad yng Nghymal 1. Mae Rhan 1 o'r Atodlen yn rhestru eithriadau ar gyfer rhai cyrff a swyddogaethau, ac mae Rhan 2 o'r Atodlen yn rhestru eithriadau ar gyfer rhai mathau o ystyriaeth.

18. Mae Cymal 3(4) yn dweud, ar gyfer Rhan 2 o'r Atodlen, ei bod yn amherthnasol (oni bai bod y Rhan honno'n darparu fel arall) a yw ystyriaeth yn ymwneud â materion sy'n codi cyn neu ar ôl i'r Bil ddod i rym fel Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig, neu cyn neu ar ôl i reoliadau ddod i rym o dan Gymalau 3(2)(b) neu (c).

19. Mae Cymal 3 hefyd yn cynnwys pwerau i wneud rheoliadau ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidog Swyddfa’r Cabinet fel a ganlyn –

20. Mae Cymal 3(2) yn darparu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidog Swyddfa’r Cabinet, drwy reoliadau, ddiwygio'r Atodlen i (a) ychwanegu disgrifiad o benderfyniad i Ran 1 o'r Atodlen (eithriadau ar gyfer rhai cyrff a swyddogaethau); (b) ychwanegu disgrifiad o ystyriaeth i Ran 2 o'r Atodlen (eithriadau ar gyfer rhai mathau o ystyriaeth); neu (c) diwygio neu ddileu disgrifiad o benderfyniad neu ystyriaeth a ychwanegwyd o dan reoliadau blaenorol o dan Gymal 3(2).

21. Dylid nodi bod Cymal 3(3) yn darparu na chaiff rheoliadau a wneir o dan Gymal 3(3)(a) (h.y. ychwanegu disgrifiad o benderfyniad i Ran 1 o'r Atodlen) ymwneud â phenderfyniad gan y cyrff chyhoeddus a restrir yng Nghymal 3(3), fel a ganlyn: (a) Gweinidog y Goron, o fewn ystyr Deddf Gweinidogion y Goron 1975; (b) Gweinidogion yr Alban; (c) Gweinidogion Cymru; (d) Adran yng Ngogledd Iwerddon; (e) Awdurdod a restrir yn Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1988 (awdurdodau cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r cyfyngiadau contractio yn adran 17 o'r Ddeddf honno); (f) Cyngor Dosbarth yng Ngogledd Iwerddon; neu (g) rheolwr cynllun llywodraeth leol a ariennir (o fewn ystyr Cymal 12).

22. Mae Cymal 3(5) hefyd yn darparu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidog Swyddfa’r Cabinet, drwy reoliadau, bennu gwlad neu diriogaeth nad yw Cymal 1 yn berthnasol iddi. Mae Cymal 3(6) yn cadarnhau mai effaith hyn fyddai ei gwneud fel na bai'r wlad neu'r diriogaeth a nodir yn y rheoliadau'n "diriogaeth dramor" at ddibenion Cymal 1(6). Mae Cymal 3(7) hefyd yn cadarnhau na chaiff rheoliadau o dan Gymal 3(5) bennu, ac na chaiff rheoliadau o dan Gymal 3(2) arwain at ddisgrifiad o benderfyniad neu ystyriaeth sy'n ymwneud yn benodol neu'n bennaf ag (a) Israel; (b) Tiriogaethau Meddianedig Palesteina; neu (c) Ucheldiroedd Meddianedig Golan.

23. Mae'n dilyn bod Cymal 3, yn ei hanfod, yn estyniad i'r ffordd mae Cymalau 1 a 2 yn cael eu cymhwyso, ac felly, mae ein dadansoddiadau o Gymalau 1 a 2 yr un mor berthnasol i Gymal 3, ac felly rydym o'r farn bod Cymal 3 (ar wahân i'r darpariaethau y cyfeirir atynt uchod) yn ymwneud â materion datganoledig.

Cymal 4

24. Yn ôl y Nodiadau Esboniadol mae Cymal 4 yn gwahardd cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Gymal 1, wrth wneud penderfyniadau mewn perthynas â chaffael neu fuddsoddi, rhag cyhoeddi datganiad yn nodi eu bod yn bwriadu ymdrin ag ystyriaethau tiriogaethol mewn ffordd sy'n awgrymu anghymeradwyaeth foesol neu wleidyddol ynghylch ymddygiad gwlad dramor. Dywedir bod y cymal hefyd yn gwahardd cyrff o'r fath rhag cyhoeddi datganiadau sy'n nodi y byddent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath pe bai'n gyfreithiol iddynt wneud hynny. Mae Cymal 4(3) yn cadarnhau nad yw Cymal 4 yn berthnasol i ddatganiad gan Weinidog y Goron (o fewn ystyr Deddf Gweinidogion y Goron 1975) mewn perthynas â chynnig i arfer y pwerau i ychwanegu neu newid yr eithriadau yng Nghymal 3. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn dweud y bydd hyn yn caniatáu i Weinidog y Goron gyfiawnhau ei fwriad i ddefnyddio'r pŵer yng Nghymal 3(5) i ddatgymhwyso'r gwaharddiad mewn perthynas â gwlad neu diriogaeth benodol.

25. Rwyf wedi cymhwyso'r un sail resymegol ag ar gyfer Cymalau 1 a 2 dros gynnwys darpariaethau Cymal 4 yn yr LCM hwn.

Cymalau 5 – 11

26. Mae'r Cymalau hyn yn cynnwys darpariaethau amrywiol mewn perthynas â monitro a gorfodi rhwymedigaethau'r Bil.

27. Os ystyried mai prif ddiben y darpariaethau hyn yw sicrhau bod darpariaethau craidd yn y Bil yn weithredol / traddodadwy, ein barn ni yw bod yr LCM hwn yn berthnasol i'r darpariaethau hyn yn gymaint y gellir gosod LCM mewn perthynas â gweddill darpariaethau'r Bil.

Cymal 14

28. Mae'r cymal hwn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymalau'r Bil a fydd yn rhyngweithio â darpariaethau'r Bil Caffael.

29. Ein barn ni yw bod y Bil yn deddfu mewn perthynas â chaffael, sy'n fater datganoledig ac yn destun Cymal 14. Felly rydym yn cynnwys Cymal 14 yn yr LCM hwn.

Cymal 15

30. Mae Cymal 15 yn gwneud newidiadau i adran 17(5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1988 ac

31. Mae hefyd yn rhoi pŵer i wneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol i ddatgymhwyso adran 17(5)(f) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1988.

32. Mae Cymal 15 yn addasu gallu Gweinidogion Cymru i arfer y pŵer yn adran 115 o’r Bil Caffael, ac mae hefyd yn rhoi pŵer i’r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau mewn perthynas â materion a fydd yn effeithio ar awdurdodau contractio sy’n awdurdodau datganoledig Cymru.

33. Rydym o'r farn bod y Bil yn deddfu mewn perthynas â chaffael, sy'n fater datganoledig ac yn destun Cymal 15. Felly rydym yn cynnwys Cymal 15 yn yr LCM hwn.

Cymal 16

34. Mae Cymalau 16(1) a (2) yn darparu y dylai rheoliadau o dan y Bil gael eu gwneud drwy offeryn statudol, ac na ellir gwneud offeryn statudol (boed ar ei ben ei hun neu ar y cyd â darpariaeth arall) sy'n cynnwys rheoliadau o dan unrhyw ddarpariaethau'r Ddeddf ar wahân i Gymal 17 nes bod drafft o'r offeryn wedi cael ei osod gerbron dau Dŷ Senedd y DU, ac wedi derbyn cymeradwyaeth y ddau Dŷ drwy benderfyniad.

35. Fodd bynnag, mae Cymal 16(3) yn darparu nad yw Cymal 16(2) yn berthnasol i offeryn nad yw'n cynnwys ond rheoliadau o dan Gymal 3(2) neu Gymal 3(5) os yw'r offeryn yn cynnwys datganiad bod y person sy'n gwneud yr offeryn o'r farn, oherwydd sefyllfa frys, nad yw'n briodol i Gymal 16(2) fod yn berthnasol. Mewn achosion o'r fath:

a) Mae Cymal 16(4) yn cadarnhau bod rhaid gosod offeryn sy'n cynnwys datganiad o'r fath (1) gerbron Senedd y DU ar ôl iddo gael ei wneud; bod yr offeryn yn peidio â bod mewn grym ar ôl cyfnod o 28 diwrnod ar ôl i'r offeryn gael ei wneud, oni bai ei fod yn cael ei gymeradwyo gan dau Dŷ Senedd y DU drwy benderfyniad yn ystod y cyfnod hwnnw.

b) Mae Cymal 16(7) yn dweud bod pŵer i wneud rheoliadau wedi'i roi gan y Ddeddf (ar wahân i Gymal 17) yn cynnwys y pŵer i wneud (1) darpariaeth ganlyniadol, ddeilliadol, atodol, drosiannol neu arbed; a (2) darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol.

c) Hefyd, mae Cymal 16(8) yn dweud yn achos rheoliadau o dan Gymal 6(6), fod y pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol, ddeilliadol, neu atodol yn cynnwys y pŵer i ddiwygio unrhyw Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig, Deddf gan Senedd yr Alban neu Fesur gan Senedd Cymru neu ddeddfwriaeth Gogledd Iwerddon, pryd bynnag y mae'n cael ei phasio/ei basio neu ei gwneud/ei wneud.

36. Pan fydd y Bil yn cyfeirio at allu Llywodraeth y DU i wneud rheoliadau, mae Cymal 16 yn rhoi rhagor o fanylion ynghylch cymhwyso pwerau o'r fath. Mae'n dilyn, pan fyddwn yn ystyried y gellir gosod LCM mewn perthynas â phwerau o'r fath i wneud rheoliadau, y gellir hefyd osod LCM mewn perthynas â'r darpariaethau yng Nghymal 16.

Atodlen Rhan 2

37. Mae Rhan 2 o'r Atodlen yn rhestru'n ystyriaethau sy'n cael eu heithrio. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn dweud bod hyn yn golygu na fydd Cymal 1 yn berthnasol i benderfyniad a wneir ar sail ystyriaeth yn y Rhan hon o’r Atodlen. Mae rhestr gryno o'r rhain isod: (i) Materion Ariannol ac Ymarferol; (ii) Diogelwch Gwladol; (iii) Cyfraith Ryngwladol; (iv) Llwgrwobrwyo; (v) Camymddwyn sy’n gysylltiedig â llafur; (vi) Torri Cyfraith Gystadleuaeth; a (vii) Camymddwyn Amgylcheddol.

38. Gan ein bod yn ystyried bod Cymal 1 yn ymwneud â materion datganoledig, mae'n dilyn hefyd ein bod yn ystyried y gellir gosod LCM mewn perthynas â Rhan 2 o'r Atodlen.

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

39. Yn y Nodiadau Esboniadol, mae Llywodraeth y DU yn cadarnhau bod y broses cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn cael ei sbarduno (mewn perthynas â Chymru) gan Gymalau 1 a 4 o'r Bil yn unig. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn cydnabod bod y Bil yn berthnasol i benderfyniadau'r Gweinyddiaethau Datganoledig a gellir dweud ei fod yn addasu cymhwysedd gweithredol.

**Goblygiadau ariannol**

40. Ni fydd unrhyw oblygiadau ariannol i Gymru os yw’r Senedd yn cydsynio i’r darpariaethau fod yn berthnasol i Gymru.

41. Dylid nod bod dirwyon, a fydd yn ddarostyngedig i log, am beidio â chydymffurfio â’r darpariaethau yn y Bil.

**Casgliad**

42. Fy marn i yw nad yw’n briodol mabwysiadu’r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU ar gyfer Cymru am y rhesymau canlynol:

a) Nid yw'n glir pa broblem mae Llywodraeth y DU yn ceisio mynd i'r afael â hi drwy gynnwys Llywodraeth Cymru yn y Bil anghymesur a diangen hwn. Mae Llywodraeth Cymru bob amser wedi ymddwyn mewn modd cyfrifol wrth gyflawni rhwymedigaethau rhyngwladol y DU. Mae eisoes nifer o fesurau diogelu ar waith sy'n ei gwneud yn ofynnol trin cynigwyr o wledydd lle mae cytundeb masnach cymwys yn berthnasol mewn modd teg a chyfartal. Er enghraifft, yn Nghytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Gaffael gan Lywodraethau a chyfraith gaffael bresennol.

b) Yn yr un achos lle y penderfynodd Llywodraeth y DU na ddylai cyflenwyr o Rwsia gael eu cefnogi yn dilyn yr ymosodiad ar Wcráin, roedd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r polisi tramor hwn yn llawn ac yn gweithredu polisi tebyg.  Nid yw'n glir sut byddai cyflwyno'r Bil hwn wedi arwain ar ganlyniad gwahanol.

c) Mae'r darpariaethau'n ceisio cyfyngu cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru wrth wneud penderfyniadau ynghylch caffael a buddsoddi. Nid ydym yn derbyn y dylid addasu cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru yn y ffordd hon, ac nid yw'n glir beth mae Llywodraeth y DU yn ceisio mynd i'r afael ag ef drwy wneud hynny.

Beth bynnag, nid wyf yn gallu argymell rhoi cydsyniad tra bo cwestiynau ynghylch cydnawsedd y Bil hwn â hawliau confensiwn a chyfraith ryngwladol. Yn ogystal, rwy'n nodi bod y Bil hwn wedi cael ei feirniadu'n helaeth, ymhlith y gymuned gyfreithiol a'r gymuned academaidd, mewn perthynas â'r ffordd mae wedi cael ei ddrafftio a sut y bwriedir ei weithredu'n ymarferol. Rwy'n rhannu'r pryderon hyn ac mae rhaid i Lywodraeth y DU fynd i'r afael â nhw pan fydd Senedd y DU yn craffu ar y Bil.

43. Felly rwy'n argymell bod y Senedd yn gwrthod y cynigion ac yn gwrthod rhoi cydsyniad.

**Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**08 Medi 2023**

Archwilio Cymru
Audit Wales

# NHS related outputs – August and September 2023

## Cwm Taf Morgannwg University Health Board – Quality Governance Arrangements Joint Review Follow-up

1 On 24 August 2023, the Auditor General published jointly with Healthcare Inspectorate Wales (HIW) a report which describes the progress made by the Health Board in strengthening its quality governance arrangements following our original joint review work in 2019.

2 We published a previous summary of progress against our 2019 recommendations in May 2021.

**Key issues**

Our latest follow-up report found the Health Board has made significant progress in addressing the concerns and recommendations of our 2019 report. It has a stronger strategic focus on quality and patient safety, and there is greater clarity on roles and responsibilities in relation to quality and patient safety.

The organisation's scrutiny of quality and patient safety has also improved considerably, with greater openness and transparency. There is also greater awareness of risk management across the organisation, and clearer processes in place for identifying, managing, and escalating risks. The Health Board's concerns and complaints processes are much clearer, and new corporate roles have been created to support implementation and ensure consistency. There is also an improved culture of learning, with a series of arrangements now in place to support the sharing of learning and improvement across the organisation.

There is early evidence of the Health Board's new operating model supporting further improvements in organisational culture, but further work is required around establishing clear performance monitoring and management arrangements within the new structure.

Staff told us that internal culture is improving, and senior leaders are more visible and accessible. However, they also told us that there are still areas for improvement, particularly in relation to addressing pockets of poor behaviour.

**Chief Executive of HIW's comment**

"Overall, this is a positive achievement and a clear demonstration of the health board's commitment, drive, and desire to address our concerns in full and put things right. Nevertheless, the health board still needs to take further action to fully embed its revised quality governance arrangements across the organisation and implement all remaining recommendations in full. Together with Audit Wales we will continue to closely monitor their progress."

**Auditor General's comment**

"It is pleasing to see the positive progress the Health Board has made in addressing the significant concerns and weaknesses we identified in our 2019 report. The improvements which we are describing today mean the Health Board is much better placed to know if its services are safe and of good quality. These improvements must now be sustained and built upon as the Health Board completes the implementation of the recommendations we made in 2019."

## NHS finances

3 On 8 September 2023, and following on from the conclusion of the audit of individual NHS bodies' 2022-23 accounts, the Auditor General issued a press release covering the outcome from those audits and the wider financial position for the NHS.

4 At the same time, Audit Wales released an updated version of its NHS Wales Finances Data Tool to include data for 2022-23. The tool includes trends in NHS Finances up to the end of March 2023, for the whole of Wales and for individual NHS bodies. Using data from a range of sources, the tool includes information on revenue funding, surpluses and deficits, savings profiles, capital expenditure and costs of agency staff.

**Key issues**

The press release noted that six health boards had failed to meet their statutory duty to break even over a three-year period. As a result, the Auditor General qualified his regularity opinion for those bodies as failing this duty means that the bodies have exceeded their authority to spend. The three NHS trusts and two special health authorities all met their duty to break even.

While Betsi Cadwaladr University Health Board reported that it achieved its duty to break even over a three-year period, there remains uncertainty on the reported outturn arising from the residual impact of the qualifications and uncorrected errors in the 2021-22 accounts. Consequently, the Auditor General was unable to conclude in all material respects that expenditure in 2022-23 was fairly stated and qualified the 'true and fair' opinion for the Health Board in 2022-23.

The Auditor General also qualified his 'regularity' opinion for Betsi Cadwaladr University Health Board because it incurred irregular expenditure and breached its standing financial instructions in making payments to a former interim executive member of the Board. Some further detail on this matter is in the Auditor General's report at the very end of the Health Board's annual report and accounts 2022-23. The report noted that:

“Paragraph 14.1.4 of Standing Financial Instructions issued by Welsh Ministers under paragraph 19.1 of the NHS Wales Act requires that Welsh Government approval is obtained when an executive director post is paid above the agreed scale.

The Health Board’s Remuneration Committee approved payments to an Interim Executive Director that exceeded the maximum pay point of £149,334 for the role as set out by Welsh Government. Between 1 April and 31 July 2022, the Interim Executive Director was paid £105,648 plus oncosts at a rate of pay which is equivalent to a full-time annual salary of £469,500 (excluding oncosts). The payment of £105,648 exceeded the amount approved by the Health Board’s Remuneration Committee, and Board and Welsh Government approval was not obtained contrary to the requirements of its Standing Financial Instructions.”

More broadly, against a backdrop of significant pressure, the total in-year deficit for the NHS in 2022-23 increased to £150 million (from £47 million in 2021-22) and the three-year cumulative over-spend across the NHS increased from £184 million in 2021-22 to £247 million in 2022-23.

Among other things, the data tool also highlights ongoing growth in agency staff expenditure across NHS Wales, with a further increase of 20% in cash terms in 2022-23, putting overall agency spend at £325 million across NHS Wales. The majority of the spend is to cover workforce vacancies but with some of the increase supporting additional activity.

**Auditor General’s comment**

“Health revenue funding in the NHS in Wales fell in real terms in 2022-23 at a time when the service continued to face the challenges of tackling backlogs and responding to immediate service pressures and new patterns of demand.

Whilst I recognise the scale of the financial and operational challenges faced by the NHS, I am concerned at having to qualify my audit opinion on the accounts of all seven Health Boards. In most cases this is because they have failed to meet the statutory duty legislated for by the Senedd, to break even over three years.

The focus on recovery and remodelling must continue into the current year and beyond but our data points to ongoing workforce challenges, evidenced by growing expenditure on agency staffing, and a need to develop a more strategic approach to service transformation. NHS bodies will need to use the reinstated medium term planning process to set out a financially sustainable path to service recovery and modernisation.”

5 On 13th September the Welsh Government published the updated escalation status of NHS bodies in Wales. With Betsi Cadwaladr University Health Board already in special measures, all other health boards in Wales are also now in some form of escalation for planning and finances. The scale of the on-going financial challenges facing NHS bodies has been further evidenced in the latest draft Integrated Medium-Term Plans submitted to Welsh Government by health boards earlier this year, which showed a cumulative deficit of just under £650m across those NHS bodies, with concerns that this could grow further before the end of the financial year.

6 This clearly represents an unsustainable position and health boards have been asked to submit fresh information setting out options for further reaching cost improvements. There is also a national Value and Sustainability Board that is looking to identify cost improvement opportunities in a number of specific areas that can be applied to varying degrees across all health boards.

## NHS workforce – data briefing

7 As noted above, the press release on NHS finances drew attention to ongoing workforce challenges. On 26 September 2023, the Auditor General published an NHS workforce data briefing. Our data briefing highlights these challenges alongside other metrics, trends, and comparisons to provide an overall picture of the current NHS workforce in Wales.

8 Having a healthy, motivated, and sustainable workforce is central to the success of the NHS. However, the NHS workforce is under significant pressure as the service looks to recover backlogs in planned care and deal with heightened urgent and emergency care demand. Audit Wales is currently undertaking detailed examinations of workforce planning arrangements in each of the NHS bodies in Wales. We will consider the merits of a national summary report as findings from the local audit work emerge.

**Key issues**

Our data briefing shows that the NHS workforce in Wales continues to grow with a 27% increase in workforce numbers since 2012-13. It also shows that the NHS in Wales is committed to being a flexible employer and to grow its own workforce through the provision of training and education.

However, the NHS workforce in Wales continues to face a number of on-going challenges:

- There were 6,800 vacancies across all staff groups at the end of March 2022, with notable gaps of nearly 2,500 staff in nursing and midwifery.
- More staff are leaving the NHS than at any other time in the last five years.
- Overall levels of sickness absence have grown and equated to an estimated 1.4 million working days in 2022-23.
- There is a continued and growing reliance on agency staff which represented 5.5% of the overall NHS workforce in 2022-23, at a cost of £325 million.

**Auditor General's comment**

"This data briefing aims to provide insight into the NHS workforce in Wales and some of the challenges it faces. Alongside the work on workforce planning my auditors are undertaking at each NHS body in Wales, I hope it can be a stimulus for taking forward the essential actions needed to strengthen the NHS workforce."

## Suggested next steps

9 In overall terms we would suggest that the Committee can note the three publications, and also consider the potential for gathering further evidence on NHS finances and the position at Betsi Cadwaladr University Health Board.

10 On NHS finances, in the context of the Auditor General's qualifications of the accounts of a number of NHS bodies, the Committee may wish to consider getting oral evidence from the Welsh Government before the end of the financial year on the actions that are being taken to manage the significant financial pressures the service is facing in year, and for 2024-25 and beyond. Should the Committee wish to set up such a session, some liaison with the Health and Social Care Committee would be merited to ensure there is no overlap with that Committee's planned work on NHS budget scrutiny.

11 The Committee had previously signalled that it was keen to have an on the record discussion with the leadership of Betsi Cadwaladr University Health Board. This could build on the private briefing the interim Chair and interim CEO provided earlier this year, and provide an update on the progress being made with the overall improvement programme that has been established following the escalation to special measures. It could also explore the issues associated with internal controls and approvals which led to the qualification of the Health Board's 2022-23 accounts, as well as getting an update on the response to the findings of the Ernst & Young review.

12 It is understood that discussions are planned with the Health and Social Care Committee to explore the potential for joint scrutiny of Betsi Cadwaladr University Health Board. In considering the timing of such a session, it may help the Committee to be aware that the Auditor General will be undertaking work during the latter part of 2023 to follow up the issues identified in his February 2023 report in the public interest on board effectiveness at Betsi Cadwaladr University Health Board. It is anticipated that these follow up findings will be published towards the end of January 2024.

13 In respect of NHS Workforce data briefing and the Cwm Taf Morgannwg Quality Governance follow up:

- The Auditor General is currently completing local audit work on workforce planning at all NHS bodies, and once that is complete, we are likely to prepare some high-level national summary messages from the local work in Spring 2024, and can further brief the Committee at that point.
- Audit Wales and Healthcare Inspectorate Wales will be maintaining a watching brief on how quality governance arrangements at Cwm Taf Morgannwg UHB continue to develop. We have requested a further written update from the Health Board in 6 months-time and expect that to point to good progress on the few outstanding issues we flagged in the follow up report. We will, however, alert the Committee if we have any concerns at that point.